*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod y **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN, 20 MEHEFIN 2023** yn **Pencadlys Tân ac Achub Llanelwy** a rhithiol **dros Zoom** gan ddechrau am **14:00 o'r gloch**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad Monitro Perfformiad 2022/23**

7. **Adolygiad Gofal Brys**

8. **Ymchwiliad i Larymau Tân Awtomatig**

9. **Y Gofrestr Risg**

10. **Strategaeth Amgylcheddol**

11. **Ymateb i Ymgynghoriad ar Reoliadau Gwahaniaethu ar Sail Oed (Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân)**

12. **Materion Brys**
    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**

Yn unol ag Adran 100 A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Dim.**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mawrth 2023 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Cyng Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dyfed Wyn Jones | Cyngor Sir Ynys Mon |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Y Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Richard Fairhead | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Heledd Davies | Atebol – Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Cyng Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Gareth A Roberts | Cyngor Sir Gwynedd |
| Cyng Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Cyng Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Cyng Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod newydd, y Cyng Dyfed Wyn Jones sy'n cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn, i'w gyfarfod cyntaf o'r Awdurdod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 RHAGFYR 2022

4.1 Nodwyd bod rhai o'r cynghorau cyfansoddol wedi'u dyrannu'n anghywir yn erbyn enwau Cynghorwyr yn adran presenoldeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd, gan nodi'r diwygiad a gafodd ei grybwyll.**

## 5 MATERION YN CODI

5.1 Rhoddodd y PST Docx ddiweddariad byr ar y Dyfarniad Cyflog a'r risg cysylltiedig o ran gweithredu diwydiannol posibl. Nodwyd bod yr Aelodau wedi cael eu briffio'n rheolaidd dros y chwe mis diwethaf ar yr eitem hon.

5.2 Roedd cynnig cyflog wedi'i wneud gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar 07 Chwefror 2023 o 7% wedi'i ôl-ddyddio i fis Gorffennaf y llynedd, a chynnig o 5% yn dod i rym ym mis Gorffennaf eleni. Roedd Undeb y Frigâd Dân wedi cynnal pleidlais ymhlith ei aelodau gydag argymhelliad i dderbyn y cynnig hwn, a phleidleisiodd 96% i dderbyn y cynnig gyda 84% o'r aelodau wedi pleidleisio.

5.3 Mae'r Gwasanaeth yn croesawu unrhyw setliad sy'n osgoi gweithredu diwydiannol ac yn cefnogi ei staff, ac mae'r holl baratoadau ar gyfer parhad busnes sy'n deillio o botensial gweithredu diwydiannol bellach wedi'u rhoi o'r neilltu.

5.4 Gofynnwyd i'r aelodau nodi nad oedd cyllid ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig cyflog hwn ac felly byddai'n rhaid dod o hyd i'r gost ychwanegol o gyllideb y Gwasanaeth. Mae hynny'n golygu newid mewn darpariaeth frys i ganfod cydbwysedd priodol rhwng yr heriau sy'n ein hwynebu wrth warchod pobl Gogledd Cymru a sicrhau bod gennym gyllideb gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## 6. Y DIWEDDARAF AM Y GYLLIDEB

6.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur bapur Y Diweddaraf am y Gyllideb a oedd yn anelu at roi diweddariad ariannol i'r aelodau yn dilyn cymeradwyo cyllideb refeniw 2023/24 yng nghyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 16 Ionawr 2023.

6.2 Ers ysgrifennu'r papur hwn, gwnaed cynnig cyflog o swm penodol ar gyfer staff y llyfr gwyrdd sy'n uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio a wnaed o fewn y gyllideb ar gyfer 2023/24. Rhagwelir y byddai'r gost gynyddol hon yn dod i £130,000, pe bai'n cael ei dderbyn.

6.3 Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y codiad cyflog diweddar bellach wedi arwain at bwysau cyllidebol ychwanegol o £1m, yn ychwanegol at y pwysau presennol o £1.4m.

6.4 Byddai arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i bontio'r bwlch ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ond byddai hyn yn dihysbyddu'r cronfeydd wrth gefn yn ddifrifol. Yr unig opsiynau oedd ar gael i'r Gwasanaeth wrth symud ymlaen, felly, oedd edrych ar gynyddu incwm drwy'r ardoll ar Awdurdodau Lleol a gwneud arbedion cost drwy'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

6.5 Hysbyswyd y rhai a oedd yn bresennol bod Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi penderfynu cysylltu â'u ASau lleol er mwyn eu lobïo ynghylch darparu cyllid ychwanegol i dalu am y pwysau a grëwyd gan y dyfarniad cyflog.

6.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi casgliad y trafodaethau cyflog ar gyfer diffoddwyr tân a'r pwysau o ran costau pellach cysylltiedig;**

**ii) ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr i fynd i'r afael â'r pwysau o ran costau sy'n deillio o setliad cyflog y diffoddwyr tân;**

**iii) nodi bod y trafodaethau cyflog ar gyfer yr holl staff eraill yn parhau i fod heb eu penderfynu ar hyn o bryd; a**

**iv) nodi y bydd gan y diffyg sylfaenol o £2.4m oblygiadau anorfod ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a chynnydd yn yr ardoll ar gyfer 2024/25.**

## 7. CYNLLUNIAU LLESIANT Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

7.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur bapur Cynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a oedd yn cyflwyno Cynlluniau Llesiant drafft y tri BGC yng Ngogledd Cymru i'r Aelodau.

7.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a**

**ii) chymeradwyo'r tri chynllun llesiant yn rhinwedd eu rôl fel yr Awdurdod Tân ac Achub.**

## 8. CYNLLUN GWELLA A LLES DRAFFT, SY'N CYNNWYS CYNLLUN GWEITHREDU BLYNYDDOL

8.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw y papur ar y Cynllun Gwella a Lles Drafft, sy'n cynnwys y Cynllun Gweithredu Blynyddol, a oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at lunio diwygiad drafft 2023-24 o Gynllun Corfforaethol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) 2021-24, i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Ebrill 2023.

8.2 Nodwyd y byddai'r argymhellion a wnaed gan Dan Stephens, y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, yn cael eu trafod ym maes cynnal a datblygu sgiliau allweddol diffoddwyr tân, sef un o'r tair her allweddol.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at lunio diwygiad 2023-24 o Gynllun Corfforaethol 2021-24 a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Awdurdod llawn ym mis Ebrill 2023; a**

**ii) nodi golwg adolygiad blynyddol Cynllun Corfforaethol 2023-24 ar ei newydd wedd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.**

## 9. DATGANIAD POLISI TÂL

9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y Datganiad Polisi Tâl a oedd yn hysbysu'r Aelodau o gyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n deillio o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).

9.2 Nodwyd nad oedd y ddogfen hon yn cynnig unrhyw newidiadau, ond bod angen ei chymeradwyo'n flynyddol.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth Leol 2011; a**

**ii) chymeradwyo'r Datganiad ar Bolisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.**

## 10 MONITRO PERFFORMIAD

10.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw y papur Monitro Perfformiad sy'n rhoi gwybodaeth am weithgarwch mewn perthynas â digwyddiadau yn ystod naw mis cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod; a gweithgarwch nodedig arall mewn perthynas â digwyddiadau.

10.2 Diolchwyd i'r staff am eu gwaith rhagorol parhaus a thynnodd yr Aelodau sylw at y cynnydd dymunol mewn argaeledd, yn dilyn ailstrwythuro'r Gwasanaeth y llynedd.

**10.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad**

## 11 TROSOLWG O'R ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

11.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead bapur Trosolwg o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn amlinellu'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Gweithgor Aelodau ar 14 Mawrth 2023. Yn ystod y cyfarfod hwn, rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richard Fairhead ac ORH. Roedd hyn er mwyn cyflwyno pwrpas cynnal Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r fethodoleg i'w defnyddio.

11.2 Nodwyd bod yr adolygiad hwn wedi'i gyflwyno’n wreiddiol i edrych ar sut y gallai'r Gwasanaeth wella'r gwasanaeth tân ar draws Gogledd Cymru; fodd bynnag, byddai'n ofynnol nawr i nodi hefyd lle gellid gwneud unrhyw arbedion effeithlonrwydd er mwyn lleddfu'r pwysau ar y gyllideb.

**11.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad hwn.**

## 12 TROSOLWG O'R CYNLLUN CYNALIADWYEDD

12.1 Cyflwynodd y PSTC Millington y papur ar y Trosolwg o'r Cynllun Cynaliadwyedd a oedd yn amlinellu'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Gweithgor Aelodau ar 14 Mawrth 2023. Yn ystod y cyfarfod hwn, cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Reolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn cyflwyno’r cysyniad o Strategaeth Amgylcheddol, ac yn trafod rhai o'r penderfyniadau y bydd angen eu gwneud er mwyn datblygu un.

12.2 Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ledled Cymru lle bo hynny'n bosibl, a bod dull Cymru gyfan wedi'i fabwysiadu ar gyfer caffael contractau gwerth uchel.

12.3 **PENDERFYNWYD**:

**i) nodi cynnwys yr adroddiad hwn.**

## 13 MATERION BRYS

13.1 Nid oedd materion brys i’w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:00 o’r gloch.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **19 Mehefin 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, (Polisi Corfforaethol a Chynllunio)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Ebrill 2022 – Mawrth 2023** |

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod); a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

**Crynodeb Gweithredol**

2 Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) at 5,894 o achosion brys. Mae hyn yn gynnydd o 10.1% o'i gymharu a blwyddyn ariannol 2021/22 (5,354).

3 Cynyddodd presenoldeb mewn argyfyngau nad ydynt yn danau, a ddosberthir fel Galwadau Gwasanaeth Arbennig (SSC), 26.3% i 1,210. Daw hyn yn dilyn newid polisi yn ystod 2021/22 ynghylch mynychu SSC, i roi mwy o gymorth i'r cyhoedd ac asiantaethau partner gan gynyddu amlygrwydd y Gwasanaeth yn y gymuned ar yr un pryd.

4 Gostyngodd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi (ADF) yr aethpwyd atynt yn ystod y flwyddyn ariannol i 344, o gymharu â 399 yn ystod 2021/22. Mae'n bleser gennyf adrodd na fu unrhyw farwolaethau damweiniol mewn tanau mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ariannol, a bod gostyngiad hefyd yn nifer yr anafiadau difrifol, o 5 i 3, o gymharu â 2021/22. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau parhau i ddarparu ymyriadau atal tân a mentrau i gefnogi diogelwch tân yng nghartrefi a chymunedau Gogledd Cymru.

5 Parhaodd tanau yn yr awyr agored i fod yn faes ffocws i'r Gwasanaeth, a all fod o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, ac mae'n faes sy'n tyfu yn y DU o gymharu â'r gostyngiad mewn tanau mewn tai yn ystod y degawd diwethaf. Gall tanau yn yr awyr agored fod yn ddigwyddiadau arbennig o heriol i'r Gwasanaeth ddelio â nhw oherwydd eu natur ansicr, maint posibl, graddfa a dwyster ac oherwydd yr amgylcheddau rhyngwyneb gwledig a gwledig-trefol y maent yn tueddu i ddigwydd ynddynt.

6 Fel y'i diffinnir gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC), mae tân yn yr awyr agored yn dân mewn glaswelltir, coetir neu gnydau:

1. sy'n cynnwys un hectar o leiaf o ardal ddaearyddol (10,000 metr sgwâr neu 100m x 100m);
2. sydd â hyd fflam parhaus o fwy nag 1.5 metr;
3. sy'n mynnu adnodd neilltuedig o 4 peiriant/adnodd tân ac achub o leiaf;
4. sy'n mynnu ymrwymo adnoddau am o leiaf chwe awr; a/neu
5. sy'n peri bygythiad difrifol i fywyd, yr amgylchedd, eiddo a seilwaith.

7 Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, bu cynnydd bach i 55 yn nifer y tanau yn yr awyr agored yr aethpwyd atynt gan gyfanswm cyfunol o 359 o gerbydau am dros 1,108 o oriau.

8 Mynychwyd 2,673 o Alwadau Diangen yn ystod y flwyddyn ariannol, cynnydd o 6.2% ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd hyn oherwydd cynnydd o 9.7% yn nifer galwadau systemau larwm tân a fynychwyd oherwydd cyfarpar (AFA) o 1,398 i 1,534, ac i alwadau diangen maleisus o 43 i 52 (20.9%). Derbyniodd y Gwasanaeth 1,485 o alwadau AFA Masnachol, a mynychwyd 17 (1.1%) ohonynt ac ni fynychwyd 1,468 (98.9%). Yn ogystal, derbyniwyd 446 o alwadau AFA mewn ysbytai, a mynychwyd 203 (45.5%) ohonynt ac ni fynychwyd 243 (54.5%).

9 Arweiniodd y newidiadau i'n polisi mynychu i ddigwyddiadau yng Ngharchar Berwyn a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig, a'r cyngor diogelwch tân a roddwyd yn ystod 2022/23, at ostyngiad yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn y carchar i 19 o 22 yn ystod 2021/22.

10 Cynyddodd perfformiad argaeledd criwiau tân yn unol â tharged argaeledd 20 gorsaf 3.5% i 324 diwrnod (88.8%) o gymharu â 313 diwrnod (85.8%) yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

## Argymhelliad

11 Bod yr Aelodau:
   i) yn nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad.

## Gwybodaeth

12 **Yr Holl Ddigwyddiadau**
Parhaodd y duedd ar i fyny yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt, gyda 10.1% yn fwy o ddigwyddiadau yn cael eu mynychu yn ystod y flwyddyn ariannol, 5,894 o gymharu â 5,354 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y prif gyfrannwr at y cynnydd oedd Galwadau Gwasanaeth Arbennig a gynyddodd 26.3%.

13 **Tanau**

Cynyddodd nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn ystod y flwyddyn ariannol 7.0% i 2,011 o gymharu â 1,879 yn ystod 2021/22.

14 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**

Cynyddodd tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau 26.5% i 472 o 373 yn ystod 2021/22. Cynyddodd nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol eilaidd i 306 o 234, gyda thanau 'Glaswelltir, Porfa, Pori ac ati' a 'Rhostir neu Weundir' yn brif gyfranwyr, gan gynyddu o 68 i 94 ac 81 i 107 yn y drefn honno. Cofnodwyd cynnydd hefyd yn 'Prysgwydd Coed – yn cynnwys coed sengl nad ydynt mewn gardd' (20 i 31); 'Gwrychoedd' (17 i 29) a 'Llosgi gwellt/sofl' (1 i 9).

15 Cynyddodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau eilaidd bwriadol 15.2% o 125 i 144. Er mai'r prif gyfranwyr at y cynnydd oedd 'Glaswelltir, Porfa, Pori ac ati' (47 i 64) a 'Prysgwydd Coed – yn cynnwys coed sengl nad ydynt mewn gardd' (15 i 24), gostyngodd tanau "Rhostir neu Weundir" o 40 i 27.

16 **Tanau yn yr awyr agored**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, er bod cynnydd o ran mynychu tanau yn yr awyr agored i 55 o 52 yn y flwyddyn ariannol flaenorol, mynychodd 359 o gerbydau o gymharu â 410. Gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn y lleoliad i 1,108 awr, o gymharu â 1,560 o oriau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

17 **Prif Danau**

Gostyngodd prif danau 3.0% o 880 i 854 o gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22 ac roeddent 3.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 884. Er bod nifer y prif danau damweiniol wedi gostwng 3.5% o 737 i 711 ar sail gostyngiad mewn prif danau damweiniol mewn cartrefi, roedd prif danau damweiniol 2.0% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 697. Nid oedd nifer y prif danau bwriadol wedi newid, sef 143 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 23.5% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 187.

18 **Tanau Eilaidd**

Cynyddodd tanau eilaidd, a oedd 23.2% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 842, 18.0% o 879 i 1,037, oherwydd cynnydd o 20.2% mewn tanau eilaidd damweiniol (550 i 661). Er bod cynnydd wedi'i gofnodi yn 'Glaswelltir, coetir a chnydau' (234 i 306) ac 'Arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (149 i 205), bu gostyngiad mewn 'Strwythurau awyr agored' (140 i 115). Cynyddodd tanau eilaidd bwriadol 14.3% (329 i 376), a chynyddodd 'Glaswelltir, coetir a chnydau' ac 'Arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' 15.2% (125 i 144) a 23.0% (126 i 155) yn y drefn honno.

19 **Tanau Simnai**

Mae nifer y tanau simnai, nad oedd wedi newid, sef 120 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, wedi gostwng 17.2% o gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19 (145) ac roeddent 14.9% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 141.

20 **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

Mynychodd y Gwasanaeth 13.8% yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi - 344 o gymharu â 399 yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Tanau damweiniol mewn 'Tŷ - Meddiannaeth Sengl' a 'Byngalo - Meddiannaeth Sengl' oedd yn arwain y gostyngiad o 234 i 198 ac o 62 i 40 yn y drefn honno. Prif achosion y tanau damweiniol oedd 'Coginio – coginio arall', 'Deunyddiau Llosgadwy sy'n Rhy Agos at Ffynhonnell Wres (neu dân)'; 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan' a 'Choginio – Sosban Sglodion/Peiriant Ffrio Dwfn' a ostyngodd o 80 i 78, 89 i 63; 41 i 34 a 26 i 10 yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd cynnydd mewn 'Gorboethi, Achos Anhysbys' o 12 i 20.

21 **Anafiadau/Marwolaethau mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

Doedd dim marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â 3 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Bu gostyngiad yn y nifer a anafwyd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o 113 i 71, gyda 3 person yn dioddef anafiadau difrifol o gymharu â 5 yn ystod 2021/22.

22 **Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ariannol (87.2%). Bu gostyngiad o 190 i 176 mewn tanau damweiniol mewn cartrefi lle cafodd synhwyrydd mwg/gwres ei osod, ei weithredu a galwyd am gymorth.

23 Bu gostyngiad o 78 i 43 yn nifer y digwyddiadau lle'r oedd synhwyrydd mwg wedi'i osod ond na wnaeth weithredu.

24 Bu gostyngiad o 50 i 44 mewn tanau damweiniol mewn cartrefi lle na chafodd unrhyw synhwyrydd ei osod, a lle gosodwyd synhwyrydd a'i weithredu ond ni alwyd am gymorth, roedd nifer y digwyddiadau heb newid ar 81.

25 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Amhreswyl**

Bu gostyngiad o 54 i 48 mewn prif danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gyda 19 yn digwydd yng Ngharchar y Berwyn.

26 **Galwadau Diangen**

Parhaodd y duedd ar i fyny mewn Galwadau Diangen gyda'r Gwasanaeth yn mynychu 2,673 o alwadau diangen - 6.2% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2021/22 (2,517), a 12.8% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 2,369. Bu cynnydd o 9.7% o 1,398 i 1,534 yn y rhai a oedd wedi tarddu o systemau larwm tân awtomatig (AFA) ac roedd yn cynrychioli 57.4% o'r achosion o alwadau diangen.

27 **Larymau Tân Awtomatig Amhreswyl (AFA)**
Bu cynnydd o 27.0% o 200 i 254 mewn AFAs yn bennaf oherwydd cynnydd mewn tanau mewn 'Ysbytai a Gofal Meddygol' a gynyddodd o 134 i 186. Prif achosion actifadu mewn Larymau Tân Awtomatig Amhreswyl oedd 'Diffygiol' (85 i 95); 'Wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/yn ddiofal' (35 i 40); a 'Cemegau/aerosolau' (10 i 19).

28 **AFAs Arall-Preswyl**
Bu cynnydd o 16.5% mewn LTA 'Arall-Preswyl' o 97 i 113, gyda 'Llety Nyrsys'/Meddygon' a 'Gwesty/motel' yn cynyddu o 9 i 25 ac o 15 i 23 yn y drefn honno. Fodd bynnag, gostyngodd 'Neuadd Breswyl Myfyrwyr' a 'Cartref Preswyl' o 32 i 20 ac o 23 i 15 yn y drefn honno. Er mai prif achosion actifadu yng nghategori 'Arall-Preswyl' oedd 'Coginio/llosgi tost', gyda chynnydd bach o 27 i 30, cynyddodd 'Anwedd' ac 'Ysmygu' o 4 i 9 ac o 3 i 7 yn y drefn honno. Er hynny, bu gostyngiad yn y categori 'Diffygiol' o 31 i 26.

29 **AFAs mewn cartrefi**
Dangosodd tanau damweiniol mewn cartrefi duedd barhaus i fyny, gan gynyddu 5.8.% o 1,100 i 1,165, gyda 'Tŷ -Meddiannaeth Sengl' yn brif gyfrannwr at y cynnydd, gan godi o 278 i 338, ac yna 'Byngalo - meddiannaeth sengl' yn codi o 300 i 340. Cofnodwyd gostyngiadau yng nghategori 'Fflatiau/Fflatiau Deulawr wedi'u Hadeiladu'n Bwrpasol – amlfeddiannaeth' a ''Tai Gwarchod Hunangynhwysol' o 393 i 361 ac o 87 i 74 yn y drefn honno.

30 O'r 1,165 o danau damweiniol mewn cartrefi, 'Coginio/Llosgi Tost' oedd y prif achos actifadu, gan gynyddu o 574 i 600. Cofnodwyd cynnydd bychan hefyd yn 'Arall' (58 i 69); 'Cychwyn yn Ddamweiniol/yn Ddiofal' (51 i 60); 'Ymwthiad Dŵr' (2 i 14), a lle na phenderfynwyd beth oedd yr achos (5 i 13).

31 **Galwadau Diangen Didwyll**
Cynyddodd galwadau diangen 1.0% o 1,076 i 1,087, oherwydd cynnydd mewn 'Galwadau Diangen - Eiddo heb ei Ddarganfod' (52 i 85).

32 Gostyngodd galwadau diangen didwyll yng nghategori 'Awyr Agored Arall (gan gynnwys tir)' o 295 i 239 yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn 'Llosgi rheoledig' (262 i 215).

33 Cynyddodd galwadau diangen didwyll 'Preswyl' 8% o 399 i 431 oherwydd cynnydd mewn 'Arall' ac 'Arall Coginio', 199 i 210 a 52 i 86 yn y drefn honno.

34 Cynyddodd galwadau diangen didwyll mewn 'Dibreswyl' o 74 i 83 oherwydd cynnydd mewn 'Arall' (24 i 31)) ac 'Offer yn Gorboethi' (1 i 9).

35 Gostyngodd galwadau diangen didwyll yn 'Glaswelltir, coetir a chnydau' o 127 i 116, gyda 'Llosgi Rheoledig' a 'Digwyddiad a Adroddir/Lleoliad heb ei Ddarganfod' yn gostwng o 95 i 88 ac o 22 i 16 yn y drefn honno.

36 **Galwadau Diangen Maleisus**

Roedd cynnydd mewn Galwadau Diangen Maleisus o 43 i 52 gydag ‘Annedd’ yn brif gyfrannwr at y cynnydd sef cynnydd o 21 i 36.

37 **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig**

Cynyddodd Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig 26.3% i 1,210 o 958 yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac roeddent 63.5% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 740. Gellir priodoli hyn i'r newid mewn polisi gyda'r nod o gynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân yn y gymuned pan fo angen.

38 Cynyddodd 'Heblaw Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd' 30.1% (751 i 977). Y prif gyfrannwr at y cynnydd oedd 'Cynorthwyo Asiantaethau Eraill' a gynyddodd 36.3% (226 i 355). Cafwyd cynnydd hefyd mewn 'Sicrhau mynediad/allanfa' (77 i 98); 'Rhyddhau o lifft' (75 i 87); ‘Achub Arall/Rhyddhau Pobl’ (60 i 92); gwahanu pobl oddi wrth wrthrychau (70 i 80), ‘Digwyddiadau cymorth anifeiliaid’ (6 i 46), a ‘Dim Gweithredu (dim galwadau diangen)’ (52 i 80). Fodd bynnag, roedd gostyngiadau yn 'Llifogydd' a 'Diogelu (nid Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd)' o 66 i 53 ac o 49 i 17 yn y drefn honno.

39 **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC)**

Mynychodd y Gwasanaeth 12.6% yn fwy o wrthdrawiadau ar y ffordd (207 i 233), lle’r oedd 69 (29.6%) yn cynnwys tynnu personau’n rhydd. Lle galwyd ar y Gwasanaeth i wneud cerbyd neu safle’n ddiogel, cynyddodd ei bresenoldeb 24.1% (83 i 103). Er i'r Gwasanaeth fynychu mwy o wrthdrawiadau ar y ffordd, roedd canran y rhain a oedd yn cynnwys rhyddhau pobl ar ei lefel isaf ers 2018/19 (39.4%) ac roedd hefyd yn is na’r cyfartaledd 3 blynedd o 36.2%.

40 **Archwiliadau Diogel ac Iach (SAWC)**

Cwblhaodd y Gwasanaeth 18,052 SAWC ac roedd 6,162 (34.1%) ohonynt yn SAWC Blaenoriaeth Uchel. O'r SAWC Blaenoriaeth Uchel, roedd 3,487 (56.6%) yn atgyfeiriadau gan asiantaeth bartner.

41 **Perfformiad Gorsafoedd**

Cyflawnwyd argaeledd arfaethedig 20 gorsaf ar 324 diwrnod (88.8%) o gymharu â 313 (85.8%) yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn is na'r 363 diwrnod (99.5%) a gyflawnwyd yn 2018/19.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n gymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n gymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro, a hynny'n gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD:

**Am y deuddeg mis**

**Ebrill 2022 – Mawrth 2023**


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU** | |
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Yr Holl Ddigwyddiadau | 1-2 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliant | 3-4 |
| Prif Danau, yn ôl math o eiddo a chymhelliant | 5 |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 6-7 |
| Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Synwyryddion Mwg - Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (ADFs) | 9-10 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 11-12 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 13-14 |
| Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau | 15-16 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN 1- GWEITHIO TUAG AT WNEUD GWELLIANNAU I IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT POBL YNG NGHYMRU** | |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 17-18 |
| Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf | 19 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 20-21 |

## 1. Pob Digwyddiad

**1.1** Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, mynychodd y Gwasanaeth 5,894 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, cynnydd o 10.1% ar y flwyddyn ariannol flaenorol (5,354).




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | **2022-23** | **1,575** | **1,877** | **1,210** | **1,232** | **5,894** | ↑ 10.1% | 4,975 | ↑ 18.5% |
| | 2021-22 | 1,322 | 1,415 | 1,254 | 1,363 | 5,354 | | | |
| Yr holl danau | **2022-23** | **577** | **719** | **337** | **378** | **2,011** | ↑ 7.0% | 1,866 | ↑ 7.8% |
| | 2021-22 | 575 | 480 | 347 | 477 | 1,879 | | | |
| Yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | **2022-23** | **327** | **371** | **267** | **245** | **1,210** | ↑ 26.3% | 740 | ↑ 63.5% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | 258 | 958 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | **2022-23** | **671** | **787** | **606** | **609** | **2,673** | ↑ 6.2% | 2,369 | ↑ 12.8% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | 592 | 628 | 2,517 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

Cyfnod Adrodd: Ebrill 2022 – Mawrth 2023

**Naratif**

**Cynnydd mewn Tanau** - priodolir y cynnydd o 7.0% mewn tanau (o 1,879 i 2,011) i'r haf poeth yn y DU a Chymru. Arweiniodd hyn felly at gynnydd o 145 o ddigwyddiadau, cynnydd o 7.8% dros y cyfartaledd 3 blynedd o 1,886.

**Cynnydd mewn AFAs (annomestig)** - Rydym yn ymwybodol o'r cynnydd mewn AFAs mewn lleoliadau annomestig. Mae'r rhan fwyaf o'r galwadau hyn yn dod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda nifer o resymau actifadu). Rydym yn parhau i weithio gyda BIPBC i leihau'r actifiadau AFA hyn. Mae cynnydd hefyd mewn mynychu digwyddiadau domestig (cartrefi) ar gyfer tanau damweiniol mewn cartrefi a chyfeirir at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Cynnydd mewn digwyddiadau Arbennig y Gwasanaeth** - Daw'r cynnydd cyffredinol yn dilyn newid mewn polisi sy'n ymwneud â mynychu Digwyddiadau Arbennig y Gwasanaeth, gan gynyddu amlygrwydd criwiau yn y gymuned.


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Aethpwyd at gyfanswm o 2,011 o danau; cynnydd o 7.0% o 1,879 yn 2021/22.

**2.2** **Prif danau –** Bu gostyngiad o 3.0% yn nifer y prif danau, o 880 i 854 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol ac roeddent 3.4% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 884.

**2.3** **Tanau eilaidd –** Cafwyd cynnydd o 18.0% yn nifer y tanau eilaidd, o 879 i 1,037, ac roeddent 23.2% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 842.

**2.4** **Tanau simnai –** Arhosodd nifer y tanau simnai heb newid ar 120, sef yr un fath ag yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 14.9% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 141.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | **2022-23** | **226** | **236** | **193** | **199** | **854** | ↓ 3.0% | 884 | ↓ 3.4% |
| | 2021-22 | 251 | 229 | 200 | 200 | 880 | | | |
| Tanau Eilaidd | **2022-23** | **332** | **476** | **100** | **129** | **1,037** | ↑ 18.0% | 842 | ↑ 23.2% |
| | 2021-22 | 293 | 244 | 110 | 232 | 879 | | | |
| Tanau simnai | **2022-23** | **19** | **7** | **44** | **50** | **120** | → 0.0% | 141 | ↓ 14.9% |
| | 2021-22 | 31 | 7 | 37 | 45 | 120 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

Bu gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y prif danau damweiniol. Mae'r gostyngiad wedi'i briodoli i'n gweithgareddau atal parhaus sy'n cael eu darparu yn ystod sesiynau SAWC a gweithgareddau ymgysylltu eraill â'r cyhoedd.

Mae'r cynnydd mewn tanau eilaidd damweiniol (o 550 i 661) ac eilaidd bwriadol (o 329 i 376) i'w briodoli i'r haf poeth yn y DU. Mewn cymhariaeth, roedd 2018/19 hefyd yn haf poeth a sych iawn yng Ngogledd Cymru. Cynyddodd Tanau Simnai o 6 rhwng Ch3 a Ch4 y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn annisgwyl yn dilyn cynnydd mewn prisiau tanwydd cyfleustodau a'r defnydd cynyddol o danau agored a llosgi coed. Mae GTAGC wedi bod yn gweithio gyda Scottish Power (SP) ac asiantaethau eraill ynghylch darparu 'pecynnau gaeaf' i drigolion.


**Y camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau a lleihau digwyddiadau tân:**

- Mae 18,052 SAWC wedi'u darparu ar draws Gogledd Cymru yn unol â'n strategaeth bresennol;
- Mae gwaith gyda phartneriaid strategol wedi parhau, gan nodi risgiau posibl i leihau digwyddiadau tân bwriadol;
- Mae cynlluniau ymyrraeth cynnau tanau bwriadol wedi'u hwyluso'n fewnol a chan PentrePeryglon;
- Mae Bwrdd Tanau yn yr Awyr Agored Newydd i Gymru wedi'i sefydlu a Siarter Tanau yn yr Awyr Agored Cymru Gyfan wedi'i ddrafftio i gefnogi lleihau nifer y tanau eilaidd damweiniol a bwriadol;
- Aeth timau atal i farchnadoedd ffermwyr a sioeau amaethyddol gan gynnwys sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 i godi proffil effeithiau Tanau yn yr Awyr Agored yng Ngogledd Cymru;
- Mae Grŵp Llywio'r Ymgyrch (CSG)wedi parhau i weithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch a thanau yn yr awyr agored yn rhagweithiol ar draws yr pob platfform y cyfryngau.
- Roedd cyfranogiad sylweddol mewn digwyddiadau Coelcerth a Thân Gwyllt cymunedol ar draws ardal y gwasanaeth

## 3 Tanau Cynradd, yn ôl math o eiddo a chymhelliant

**3.1** Yn ystod y flwyddyn ariannol, cafodd 48 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswy, o'i gymharu â 54 yn ystod 2021/22.

**3.2** Yng Ngharchar y Berwyn, digwyddodd 19 tân bwriadol, o'i gymharu â 22 yn y flwyddyn ariannol flaenorol.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch. 4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob tân cynradd bwriadol | **2022-23** | **41** | **49** | **24** | **29** | **143** | ➔ 0.0% | 187 | ↓ 23.5% |
| | 2021-22 | 40 | 42 | 31 | 30 | 143 | | | |
| Pob tân cynradd damweiniol | **2022-23** | **185** | **187** | **169** | **170** | **711** | ↓ 3.5% | 697 | ↑ 2.0% |
| | 2021-22 | 211 | 187 | 169 | 170 | 737 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4 Tanau damweiniol mewn cartrefi

**4.1** Aeth y Gwasanaeth i 344 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd, 55 (13.8%) yn llai nag yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (399), a 7.5% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 372.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | **2022-23** | **81** | **81** | **97** | **85** | **344** | ↓ 13.8% | 372 | ↓ 7.5% |
| | 2021-22 | 113 | 95 | 106 | 85 | 399 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

- Bu gostyngiad o 13.8% yn nifer yr tanau damweiniol mewn cartrefi (344 o 399) ac roeddent 7.5% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 372.

**Y camau i gefnogi cymunedau a lleihau tanau damweiniol mewn cartrefi:**

- Parhau i weithio gyda grwpiau celcio rhanbarthol i adnabod pobl sydd â risg;
- Parhau i dderbyn atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel gan asiantaethau partner, sef cyfanswm o 31.8% (5,733) o'r holl SAWC a ddarparwyd;
- Mae Rheolwyr Partneriaeth wedi archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân;
- Ymgymerwyd â menter ar y cyd rhwng GTAGC, Prifysgol Bangor, a Cartrefi Conwy lle gosodwyd gwarchodwyr stôf mewn llety myfyrwyr i leihau tanau coginio;
- Cafodd diwrnodau Agored Gorsafoedd eu hailfywiogi a gynhyrchodd SAWC ac a roddodd gyfle ychwanegol i roi cyngor diogelwch;
- Cefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol (Cymru a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Tân (NFCC)) yn unol â'n calendr Grŵp Llywio Ymgyrch (CSG) ein hunain;
- Diwrnodau allgymorth wedi'u targedu yn parhau i gael eu rhedeg yn lleol ac yn cael eu cefnogi gan asiantaethau allanol. Dosberthir taflenni mewn ardaloedd gan dimau Atal sydd wedyn yn dychwelyd i ddarparu SAWCs (Criwiau a HSSWs);
- Cynhaliwyd ymgyrch 'galw heibio' Costau Byw yn y Rhyl gan roi cyfle i dimau Atal roi cyngor pellach ar ddiogelwch;
- Ymgyrchoedd rhagweithiol yn dilyn digwyddiadau sylweddol sy'n cynhyrchu atgyfeiriadau archwiliadau diogel ac iach a sicrwydd cymunedol yn dilyn digwyddiadau;
- Mae'r bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Cartrefi Conwy, a Gofal ac Atgyweirio'n parhau i nodi cyfeiriadau â blaenoriaeth uchel – rydym yn ymgysylltu â phobl bregus sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai/lleoliadau gofal i ddarparu ymyriadau lle bo angen.
- Roedd gweithgarwch diogelwch y Nadolig yn cynnwys cefnogi banciau bwyd lleol a chyflwyno sgyrsiau diogelwch i ffoaduriaid o Wcrain.

## 5 Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi

**5.1** Doedd dim marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 o gymharu â 5 yn ystod flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd 3 anaf difrifol a 23 mân anaf o'i gymharu â 5 a 34 yn y drefn honno  Gostyngodd nifer yr archwiliadau rhagofalus o 31 i 20, tra bod nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle wedi gostwng o 43 i 35 hefyd.

| **Difrifoldeb yr anaf** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliadau Rhagofalus | 13 | 19 | 33 | 31 | 20 |
| Cymorth Cyntaf | 27 | 41 | 26 | 43 | 25 |
| Man Anafiadau | 11 | 26 | 29 | 34 | 23 |
| Anafiadau Difrifol | 6 | 4 | 3 | 5 | 3 |
| Marwolaethau | 5 | 3 | 5 | 5 | 0 |
| Cyfanswm | 62 | 93 | 96 | 118 | 71 |


| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD)** | **% % y newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | **2022-23** | **10** | **37** | **14** | **10** | **71** | ↓ 37.2% |
| | 2021-22 | 43 | 23 | 30 | 17 | 113 | |
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | **2022-23** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | ↓ 100% |
| | 2021-22 | 3 | 0 | 0 | 2 | 5 | |

| **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **Newid Blwyddyn hyd yn hyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|
| 98 | ↓ 27.6% |

## 6 Larymau Mwg - Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (ADFs)

**6.1** Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi, er nad oedd pob un yn mynd ymlaen i weithio. Yn 44 o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, ni chafodd unrhyw synhwyrydd ei osod.

**6.2** Yn y 344 o danau damweiniol mewn cartrefi, roedd 301 wedi'u cyfyngu i'r ystafell darddiad, yr eitem a daniwyd gyntaf, neu roedd difrod gwres/mwg yn unig.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yna ac wedi seinio a rhoi rhybudd | **2022-23** | **36** | **45** | **49** | **46** | **176** | ↓ 7.4% | 177 | ↓ 0.6% |
| | 2021-22 | 54 | 46 | 55 | 35 | 190 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi seinio ond heb roi rhybudd | **2022-23** | **17** | **4** | **10** | **12** | **43** | ↓ 44.9% | 69 | ↓ 37.7% |
| | 2021-22 | 20 | 20 | 16 | 22 | 78 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | **2022-23** | **22** | **19** | **25** | **15** | **81** | → 0.0% | 78 | ↑ 3.8% |
| | 2021-22 | 26 | 16 | 21 | 18 | 81 | | | |
| Larwm mwg ddim yno | **2022-23** | **6** | **13** | **13** | **12** | **44** | ↓ 12.0% | 48 | ↓ 8.3% |
| | 2021-22 | 13 | 13 | 14 | 10 | 50 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.


Cyfnod Adrodd: Ebrill 2022 – Mawrth 2023

**Camau i gefnogi cymunedau drwy gynyddu perchnogaeth larymau mwg ac addysg diogelwch:**

- Nod y Gwasanaeth oedd darparu 20,000 o SAWCs yn ystod y flwyddyn ariannol; Cyflawnwyd 18,052. Y targed ar gyfer 23/24 fydd 17,500;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i adnabod y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt;
- Parhau â'r addysg a'r ymwybyddiaeth o osod larymau mwg yn gywir yng nghartrefi pobl er mwyn atal achosion actifadu diangen a galwadau diangen;
- Mae GTAGC wedi parhau i hyrwyddo profi larymau mwg yn rheolaidd gan ddefnyddio pob platfform cyfryngau;
- Parhaodd ymdrechion i sicrhau bod ein cyngor yn rhoi manylion a chamau i'w cymryd os bydd tân yn cychwyn neu larwm mwg yn actifadu yn y cartref;
- Parhaodd addysgwyr i hyrwyddo perchnogaeth a phrofi larymau mwg fel rhan o'r ddarpariaeth ar draws ysgolion Gogledd Cymru.

## 7 Galwadau Diangen

**7.1** Ym mlwyddyn ariannol 2022/23, roedd 2,673 o alwadau diangen; cynnydd o 6.2% o 2,517 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd cynnydd o 9.7% mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o 1,398 i 1,534. Cynyddodd galwadau diangen didwyll rhyw ychydig, o 1,076 i 1,087.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 1,133 | 1,213 | 1,214 | 1,398 | 1,534 | 1,275 |
| Didwyll | 1,092 | 1,020 | 1,061 | 1,076 | 1,087 | 1,052 |
| Maleisus | 41 | 41 | 40 | 43 | 52 | 41 |
| Cyfanswm | 2,266 | 2,274 | 2,315 | 2,517 | 2,673 | 2,369 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm galwadau diangen | **2022-23** | **671** | **787** | **606** | **609** | **2,673** | ↑ 6.2% | 2,369 | ↑ 12.8% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | 592 | 628 | 2,517 | | | |
| AFA | **2022-23** | **417** | **420** | **360** | **337** | **1,534** | ↑ 9.7% | 1,275 | ↑ 20.3% |
| | 2021-22 | 311 | 403 | 345 | 339 | 1,398 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | **2022-23** | **240** | **352** | **237** | **258** | **1,087** | ↑ 1.0% | 1,052 | ↑ 3.3% |
| | 2021-22 | 278 | 287 | 235 | 276 | 1,076 | | | |
| Maleisus | **2022-23** | **14** | **15** | **9** | **14** | **52** | ↑ 20.9% | 41 | ↑ 26.8% |
| | 2021-22 | 6 | 12 | 12 | 13 | 43 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

- **2,673** Cyfanswm y Galwadau Diangen a fynychwyd (cynnydd o 6.2%);
- **1,534** Cyfanswm y Galwadau tân oherwydd cyfarpar (AFA) (cynnydd o 9.7%);
- Roedd larwm tân oherwydd 'cyfarpar' yn cynrychioli 57.4% o gyfanswm y Galwadau Diangen.


**Yr hyn yr ydym yn ei wneud:**

- Cynhaliodd y Gwasanaeth ddull wedi'i dargedu at atal tân yn ystod y flwyddyn ariannol i gadw'r bobl mwyaf bregus yn ddiogel yn ein cymunedau, a oedd yn cynnwys gweithio gyda darparwyr gofal trwy osod systemau llinell gofal (gall hyn gynyddu nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi rydym yn eu mynychu mewn cartrefi, ond bydd pob tro yn rhoi cyfle i ni roi mwy o gyngor a chyngor penodol weithiau). Byddwn yn parhau i fonitro AFAs mewn cartrefi y flwyddyn nesaf drwy:
    - Parhau i adolygu'r cofnod dyddiol o ddigwyddiadau gan Reolwyr Partneriaeth yn yr ardaloedd i nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a/neu alwadau mynych i'r un eiddo;
    - Parhau i weithio gyda darparwyr llinellau gofal gan sicrhau bod staff monitro galwadau yn cael yr hyfforddiant priodol ac adolygu hynny os oes angen e.e. dechreuwyr newydd;
    - Parhau i roi cyngor diogelwch pan fydd GTAGC yn mynychu AFAs mewn cartrefi;
    - Parhau i wneud atgyfeiriadau at asiantaethau allanol pan nodir a bod angen cymorth arbenigol pellach.

- **AFAs mewn safleoedd amhreswyl** - Rydym wedi gweithio gyda BIPBC i geisio lleihau gweithredoedd diangen, a chefnogi cynllun BIPBC i leihau AFAs diangen yn y dyfodol; byddwn yn parhau i fonitro hyn yn ystod y flwyddyn i ddod;

## 8 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Cynyddodd galwadau gwasanaeth arbennig 26.3% i 1,210 yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, o gymharu â 958 yn 2021/22. Bu cynnydd o 12.6% o 207 i 233 mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, tra bod digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y ffordd' wedi cynyddu 30.1%, o 751 i 977. (Disgwylid y cynnydd yn nifer y Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig yr aethpwyd iddynt yn dilyn penderfyniad y Gwasanaeth i gynyddu gweladedd yn y gymuned).




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 414 | 469 | 509 | 751 | 977 |
| GRFfs | 221 | 179 | 105 | 207 | 233 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 755 | 648 | 614 | 958 | 1,210 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | **2022-23** | **327** | **371** | **267** | **245** | **1,210** | ↑ 26.3% | 740 | ↑ 63.5% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | 258 | 958 | | | |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd (RTC) | **2022-23** | **53** | **65** | **60** | **55** | **233** | ↑ 12.6% | 164 | ↑ 42.1% |
| | 2021-22 | 31 | 56 | 68 | 52 | 207 | | | |
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | **2022-23** | **274** | **306** | **207** | **190** | **977** | ↑ 30.1% | 576 | ↑ 69.6% |
| | 2021-22 | 121 | 177 | 247 | 206 | 751 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.


**Naratif**

Mynychwyd **1,210** o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (cynnydd o 26.3%); Mynychwyd **977** o ddigwyddiadau heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (ag eithrio prosiectau) (cynnydd o 30.1%).

- Mae'r rheswm dros bresenoldeb cynyddol GTAGC mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ganlyniad i benderfyniad ymwybodol a gymerwyd gan y sefydliad i newid y dull gweithredu a bod yn fwy rhagweithiol wrth ymateb i geisiadau am gymorth na fyddai fel arfer yn gofyn am ymateb gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae hyn wedi arwain at fod yn fwy gweladwy yn y gymuned.
- Cynyddodd nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a fynychwyd i 233 ac roeddent yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 164. Dylid nodi bod nifer yr ymwelwyr â'r ardal, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, wedi bod yn sylweddol yn ystod 2022 (yn dilyn llacio holl gyfyngiadau Covid-19).
- Parhawyd i gyflwyno 'Stori Olivia' ar y cyd â HGC. Mae dros 2,500 o bobl ifanc bellach wedi cael y cyflwyniad.
- Mae GTAGC yn rhanddeiliad ac yn gyfranogwr allweddol o Grŵp Diogelwch Ffyrdd Gogledd Cymru, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ymyriadau lle bo angen.

## 9 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd / Rhyddhau

**9.1** O'r 223 gwrthdrawiad traffig ar y ffordd a fynychwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, roedd 69 (29.6%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person anafedig o'r cerbyd. Er bod 129 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau a gafodd mwyafrif yr anafedig..




| | |
|---|---|
| **233** | Cyfanswm y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd yr aethpwyd atynt |
| **129** | O ddigwyddiadau lle'r oedd pobl yn dioddef anaf |
| **69** | O ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau |

| **Difrifoldeb anafiadau *** | **Nifer o bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 49 |
| Cymorth Cyntaf | 31 |
| Man Anafiadau | 87 |
| Anafiadau Difrifol | 58 |
| Marwolaethau | 9 |

**Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffordd ar gael - caiff y rhain eu cofnodi yn y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân*

**Naratif**

Mynychwyd **233** o wrthdrawiadau ar y ffordd, cynnydd o 12.6% o 207;
Roedd **69** (29.6%) yn ymwneud â thorri pobl allan / rhyddhau personau.

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd a fynychwyd, bu gostyngiad yn y ganran o ryddhau pobl yr oedd angen i griwiau GTAGC ymdrin â hwy. Y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr (traffig ffordd) yng Ngogledd Cymru yn ystod haf 2022 oedd y rheswm tebygol dros y cynnydd mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd.

**Camau a gymerwyd i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd:**


- Cyflwynwyd 'Stori Olivia' ar y cyd â HGC. Mae dros 2,500 o bobl ifanc bellach wedi cael y cyflwyniad;
- Parhaodd staff Atal GTAGC i fynychu Grŵp Diogelwch Ffyrdd Gogledd Cymru;
- Mae GTAGC, mewn partneriaeth â Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Heddlu Gogledd Cymru (NWP), yn parhau i fod yn rhan o'r ymyrraeth 'Ffrindiau Peryg Bywyd' sy'n manylu ar ganlyniadau gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd (RTC) (marwolaethau ac anafiadau difrifol).

## 10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant 1:

1.1 Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol yn y cartref a chadw'n ddiogel os ydyn nhw'n digwydd.

### 10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhaodd y Gwasanaeth 18,052 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod 2022/23, gyda 5,733 (31.8%) ohonynt wedi'u cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % newid Blwyddyn hyd yn hyn (YTD) | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | Newid Blwyddyn hyd yn hyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni | **2022-23** | **35.2%** | **30.2%** | **31.7%** | **30.1%** | **31.8%** | ↓ 8.4% | 32.9% | ↓ 3.3% |
| | 2021-22 | 39.5% | 34.5% | 34.6% | 32.1% | 34.7% | | | |
| *Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd. | | | | | | | | | |

Cyfnod Adrodd: Ebrill 2022 – Mawrth 2023

**Naratif**

Cwblhawyd **18,052** o archwiliadau diogel ac iach: -
Roedd 6,162 (34.1%) yn atgyfeiriadau prif flaenoriaeth, gyda 3,487 yn dod gan asiantaeth bartner;
Roedd **2,992** (16.6%) yn archwiliadau diogel ac iach Blaenoriaeth Canolig;
Roedd **8,898** (49.3%) yn archwiliadau diogel ac iach Blaenoriaeth Isel.


**Cymryd camau i wella perfformiad a sylwadau:**

- Ni chyflawnwyd y targed o 20,000 o SAWCs. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau ariannol y mae'r Gwasanaeth yn ei wynebu bellach, mae'r adran Diogelwch Tân wedi gweld gostyngiad o 2.5 mewn swyddi Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref (HSSW) (cymeradwywyd yng nghyfarfod y FA 16 Ionawr 2023), swydd wag HSSW hirdymor heb ei llenwi, a rhai cyfnodau o absenoldeb salwch sydd wedi effeithio ar y targed;
- Dychwelyd i weithgaredd archwiliadau diogel ac iach cyn covid-19 yn dilyn gwaith ail-ymgysylltu cadarnhaol gyda'n hasiantaethau partner;
- Cyflwynwyd archwiliadau diogel ac iach fel y cyfeiriwyd ato eisoes yn yr adroddiad, gan gynnwys dros y ffôn, lle bo'n briodol;
- Parhau i ddarparu ymgyrchoedd atal a chyngor diogelwch yn unol â'n calendr ymgyrch Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (CSG) a Chyfathrebu Corfforaethol;
- Parhaodd y gwaith o ailgysylltu â'r prosiect Blaenoriaeth Uchel blaenorol ac roedd yn cynnwys holl griwiau WT, DC, a WDSR;
- Parhaodd y gwaith o ddarparu ymyrraeth bwrpasol neu wedi'i deilwra i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned.
- Parhaodd yr amrywiaeth o ymyriadau a roddwyd i feddianwyr i gynyddu, gan gynnwys offer arloesol fel Stoveguards;
- Targedau SAWC i gynyddu ar gyfer yr holl wylwyr Criw Dydd ac Amser Cyflawn (12 i 15/shifft) o 1 Ebrill 2023.

## 11 Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf

**11.1** Mae gan GTAGC 44 o orsafoedd tân gyda 54 o gerbydau ymateb, gan fod gan 8 gorsaf 2 beiriant ac mae gan Wrecsam 3. Mae cynllunio ymlaen llaw yn digwydd bob dydd i ddefnyddio adnoddau i sicrhau bod 20 ar gael rhwng 0600 a 1800. Gall newidiadau byr rybudd weithiau arwain at ostyngiad na ellir ei unioni ar unwaith.

Yn ystod 2022/23, cynyddodd y nifer o weithiau y cyrhaeddwyd y trothwy o 20 3.5% i 324 diwrnod (88.8%) o gymharu â 313 diwrnod (85.8%) yn 2021/22. O 1 Ebrill 2023, mae'r Awdurdod Tân wedi cytuno mai'r lleiafswm fydd 18.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwrnodau gyda llai na 100% | 2 | 20 | 31 | 52 | 41 |
| Diwrnodau gydag argaeledd 100% | 363 | 346 | 334 | 313 | 324 |
| Cyfanswm | 365 | 366 | 365 | 365 | 365 |

■ Diwrnodau gydag argaeledd 100% ■ Diwrnodau gyda llai na 100%

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae'r tanau i gyd yn perthyn i un o dri chategori - cynradd, eilaidd neu simnai. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio os yn adfeiliedig), cerbydau, carafanau a threlars, storio awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n danau cynradd os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achubiadau neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad a fynychwyd gan bump neu fwy o beiriannau tân. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai na thanau cynradd.<br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achubiadau na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynychu'r digwyddiad.<br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed sengl, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth - i fod yn danau cynradd), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simnai | Tanau mewn adeiladau meddiannol yw'r rhain lle mae'r tân wedi'i gyfyngu o fewn strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achubiadau na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynychu'r digwyddiad. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain sydd angen presenoldeb offer neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ffyrdd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl sydd wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynychu digwyddiadau, a all gynnwys rhywfaint o gyngor ac arolygiadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu lleoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd mae'n darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br>Nodyn: os yw'r peiriant yn cael ei 'droi i ffwrdd' gan Reolaeth cyn cyrraedd y digwyddiad nid yw'n cael ei ystyried fel un sydd wedi ei fynychu ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |
| Galwadau Diangen - Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wnaed gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad nad oedd yn bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen - Didwyll | Mae'r rhain yn alwadau a wnaed mewn ffydd dda gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn gwirionedd yn mynychu digwyddiad tân neu wasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen - AFA | Mae'r rhain yn alwadau a gychwynnwyd gan larwm tân ac offer ymladd tân. Maent yn cynnwys cychwyn cyfarpar larwm yn ddamweiniol neu lle mae larwm yn gweithredu a pherson yna'n galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel rhan o drefniant sefydlog yn rheolaidd, h.y. heb unrhyw 'farn' dan sylw, er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeiladu - Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hostel a strwythurau di-barhaol preswyl. |
| Adeilad - Amhreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad - Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, gwestai a sefydliadau preswyl busnesau gwely a brecwast, Cartrefi Nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyrennau, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau yn yr awyr agored | Tân glaswelltir, coetir a chnwd lle mynychwyd y digwyddiad gan 4 cerbyd neu fwy, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod difrod tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **19 Mehefin 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Rheolwr Ardal** |
| Pwnc | **Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd a gweithgareddau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ers yr adroddiad trosolwg a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2023.

**ARGYMHELLIAD**

2. Dylai'r Aelodau:

   i. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r cynnydd a wnaed gan y Gweithgor Darpariaeth Frys.

**CEFNDIR**

3. Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad "Cydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru" ym mis Ebrill 2021 a gwnaeth y cynnig canlynol ar gyfer gwella: "Er mwyn cefnogi cydnerthedd, dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd i nodi cyfleoedd i sicrhau'r trefniadau ymateb brys gorau bosibl."

4. Yn ogystal, roedd yr asesiad o'r sefyllfa gan y Prif Swyddog Tân, a gyflwynwyd i Aelodau'r Awdurdod ar 20 Medi 2021, yn tynnu sylw at nifer o risgiau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn gryno, roedd y rhain yn gysylltiedig â sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau'r diffoddwyr tân; a chael digon o allu corfforaethol i ddiwallu'r galw presennol a galw yn y dyfodol.

5. Mewn ymateb i asesiad y Prif Swyddog Tân cytunodd aelodau'r Awdurdod i gychwyn rhaglen o adolygiadau i feysydd hanfodol allweddol gan gynnwys y ddarpariaeth ymateb brys.

6. Er mwyn cynorthwyo'r Gwasanaeth i adolygu ei Ymateb Brys, mae cwmni annibynnol (ORH) sydd â phrofiad helaeth o archwilio darpariaeth frys wedi cael ei benodi. Mae ORH yn cynorthwyo'r Awdurdod yn ystod ei broses o wneud penderfyniadau i ddarparu atebion ar gyfer ymateb brys teg a chynaliadwy a chydnerthedd ledled Gogledd Cymru gyfan, gan ystyried galw, risgiau a chyllideb yn y dyfodol.

**GWYBODAETH**

7. Sefydlwyd Gweithgor cynrychioliadol o Aelodau'r Awdurdod Tân, sef 'Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys', sy'n cynnwys chwe Aelod o'r Awdurdod Tân, un o bob Awdurdod Unedol. Bydd manylion y gwelliannau posibl i argaeledd ac ymateb brys a chydnerthedd yn cael eu harchwilio gan y Gweithgor cyn i'r argymhellion gael eu rhoi gerbron yr Awdurdod Tân Llawn.

8. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar 14 Mawrth 2023. Yn ystod y cyfarfod hwn, rhoddodd Swyddogion ac ymgynghorwyr ORH gyflwyniad i'r Aelodau. Diben hyn oedd cyflwyno pwrpas cynnal yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a pha fethodoleg i'w defnyddio. Roedd yr adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 20 Mawrth 2023 yn amlinellu'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Gweithgor.

9. Roedd cyfarfodydd y Gweithgor wedi'u trefnu ar gyfer 4 Ebrill 2023, 2 Mai 2023 a 5 Mehefin 2023, gyda'r opsiwn i gynnal cyfarfod terfynol ddiwedd mis Mehefin os bydd angen.

10. Yng nghyfarfod y Gweithgor ar 4 Ebrill, cyflwynwyd pedwar opsiwn posibl i'r Aelodau a gafodd eu trafod yn fanwl. Esboniwyd hefyd fod diffyg disgwyliedig o £6.0 miliwn ar hyn o bryd yn y cynlluniau ariannol ar gyfer 2024/25 y bydd angen ei ystyried wrth benderfynu dyfodol y ddarpariaeth a'r ymateb brys o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. (GTAGC).

11. Roedd y pedwar opsiwn a gyflwynwyd fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1.** Model sy'n cynnal ein proffil gorsafoedd presennol gyda chynnydd o hyd at 3 gorsaf staff dydd ychwanegol a fyddai'n golygu cynnydd o ran costau.
- **Opsiwn 2.** Model sy'n cadw lleoliadau presennol ein gorsafoedd ond yn ailddosbarthu'r staff ac yn caniatáu cynnydd o 5 gorsaf staff dydd ac a fyddai'n niwtral o ran cost.
- **Opsiwn 3.** Model sydd hefyd yn cadw lleoliadau ein gorsafoedd ac yn ailddosbarthu'r staff, sy'n caniatáu cynnydd o 3 gorsaf staff dydd.
- **Opsiwn 4.** Model sy'n cadw lleoliadau ein gorsafoedd amser cyflawn ac yn cynnwys 1 gorsaf staff dydd ychwanegol ond yn cau 5 gorsaf ar-alwad.

12. Ym mis Ebrill 2023, ymgysylltodd y Gwasanaeth â'r Sefydliad Ymgynghori (tCI), sef sefydliad dielw sydd wedi hen ennill ei blwyf, sy'n hybu ymgynghori o ansawdd uchel gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Maent wedi cael eu defnyddio gan lawer o Wasanaethau Tân ac Achub yn y DU gan gynnwys Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Sefydliad yn darparu adolygiad cymheiriaid cymwys a Thystysgrif Parodrwydd i Ymgynghori i sicrhau bod GTAGC yn mabwysiadu arfer gorau yn unol â Siarter Ymgynghori a bod unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cael ei gyflawni yn ôl y safonau gofynnol.

13. Mae gweithgareddau arfer gorau cyn-ymgynghori yn cynnwys gwrando ar farn eraill mewn grwpiau ffocws a gweithdai, dadansoddi pwy allai gael eu heffeithio gan gynlluniau'r dyfodol ac i ba raddau, dadansoddi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r holl gynlluniau arfaethedig, a sicrhau bod y dulliau cywir o gyfathrebu ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael eu mabwysiadu fel y gallant gymryd rhan a helpu i siapio, adolygu a chytuno ar unrhyw gynigion a gaiff eu cynnwys mewn ymgynghoriad llawn.

14. Yn dilyn y Dystysgrif Parodrwydd Ymgynghori ac yn amodol ar fodloni'r safonau gofynnol, bydd y Sefydliad yn ardystio bod cynlluniau a gweithgareddau ymgynghori'r Gwasanaeth wedi cael Sicrwydd Ansawdd Annibynnol i safon sy'n bodloni gofynion y Siarter Ymgynghori a'r fframwaith sicrwydd.

15. Mewn cyfarfod o Weithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar 2 Mai, trafodwyd yr opsiynau posibl yn fanylach gan ddefnyddio gwybodaeth gan yr ymgynghorydd annibynnol ORH, wrth ateb cwestiynau'r Aelodau o'u cyfarfodydd blaenorol ym mis Mawrth ac Ebrill.

16. Cyflwynodd swyddogion hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cyn-ymgynghori'r Awdurdod a'r adborth a gafwyd gan y gwahanol randdeiliaid sydd wedi cynnwys partneriaid golau glas, grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, staff a chyrff cynrychioliadol.

17. Cyflwynwyd dadansoddiad a modelu pellach i gefnogi ymateb mwy effeithiol ac effeithlon i aelodau Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn ei gyfarfod ar 5 Mehefin 2023.

18. Mae'r Gwasanaeth yn parhau â'i weithgareddau cyn-ymgynghori gydag arweiniad a chefnogaeth gan y Sefydliad Ymgynghori, er mwyn sicrhau parodrwydd i ymgynghori mewn pryd ar gyfer unrhyw broses ymgynghori lawn bosibl rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Rhaid i unrhyw opsiynau fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Cyllideb** | Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd gan unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth frys oblygiadau ar gyfer cyllidebau cyfalaf a gweithredol yn y blynyddoedd i ddod. |
| **Cyfreithiol** | Rhaid i unrhyw opsiynau fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| **Staffio** | Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto a fydd yn effeithio ar staff. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer Darpariaeth Frys drwy asesiadau integredig ac asesiadau effaith cydraddoldeb. |
| **Risgiau** | Mae'n lleihau'r risgiau o beidio â gallu gosod cyllideb gytbwys ac ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |

This document is available in English

**Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **19 Mehefin 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru – Lleihau Galwadau Diangen** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi trosolwg i'r aelodau o'r canfyddiadau yn dilyn archwiliad o alwadau tân diangen a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Archwilio Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, aeth Archwilio Cymru ati i adolygu dull gweithredu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o ran lleihau galwadau tân diangen, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ei ymagwedd at fynd at alwadau mewn eiddo annomestig.

3. Dyma'r cwestiwn roedd yr adolygiad yn ceisio ei ateb: ***A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i leihau nifer yr achosion a'r ymatebion i alwadau tân annomestig diangen?***

4. Dyma'r hyn ganfu'r tîm archwilio: ***Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân annomestig diangen y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol, ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a phroblemau capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig ar risg yn gynaliadwy.***

5. Er ei fod yn cydnabod bod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r broblem o alwadau tân diangen mewn eiddo annomestig yn dda, mae'r adroddiad yn gwneud tri argymhelliad ar sut gellid gwella hyn ymhellach.

6. Mae'r argymhelliad cyntaf yn ymwneud â sut mae'r Awdurdod yn gallu dangos effaith galwadau tân diangen o safbwynt ariannol, i gynnwys cofnod a dadansoddiad gwell o ddata i sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd yn cael eu yn nodi a'u cyflwyno'n gywir.

7. Mae'r ail argymhelliad yn canolbwyntio ar sut gellir integreiddio neu ddarparu data Larymau Tân Awtomatig (AFA) i eraill, yn ogystal â sut gellir ychwanegu gwerth at waith timau Diogelwch Tân Busnesau yn benodol.

8. Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud ag adeiladu cydnerthedd i mewn i'r ffordd y caiff galwadau tân diangen eu rheoli, a hynny yng nghyd-destun heriau capasiti sefydliadol sylweddol.

**ARGYMHELLION**

9. Argymhellir bod yr Aelodau'n:
   i) nodi cynnwys adroddiad lleihau Galwadau Tân Diangen Archwilio Cymru.

**CEFNDIR**

10. Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i aelodau staff ar wahanol lefelau ledled Gogledd Cymru, gan roi ffocws clir ar yr ymdrechion a wnaed eisoes, yn ogystal â lle'r oedd potensial yn bodoli i leihau nifer yr achlysuron pan gaiff adnodd ei symud heb fod angen er mwyn ymateb i alwad ddiangen mewn lleoliad annomestig.

11. Cafodd archwiliadau tebyg eu cwblhau gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân De Cymru.

12. Rhoddodd Archwilio Cymru adroddiad drafft i swyddogion a chafodd sylwadau eu cyflwyno i'w hystyried. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar wahaniaethu'n gliriach rhwng galwadau diangen mewn eiddo annomestig ac eiddo domestig.

13. Datblygodd Archwilio Cymru gofnod o'r sylwadau hyn, ac yn dilyn hynny darparodd ymateb o ran lle cafodd newidiadau i'r ddogfen eu gwneud a lle mae arsylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi'u nodi, eu derbyn neu eu derbyn yn rhannol.

**GWYBODAETH**

14. Roedd yr archwiliad yn ystyried pob polisi sy'n gysylltiedig â galwadau diangen, sut cafodd ei ddatblygu a sut mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd; yn ogystal â sut mae'r gwaith o leihau galwadau diangen yn cael ei fonitro a'i werthuso.

15. Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb ac adroddiad manwl, gyda'r adroddiad manwl yn cyfeirio at:

    - Sut mae'r gwasanaethau tân ac achub yn wynebu'r amgylchedd ariannol a gweithredol mwyaf heriol mewn cenhedlaeth;
    - Beth yw galwadau tân diangen a pham mae'n bwysig eu gostwng; a
    - Sut mae galwadau diangen yn cael eu rheoli gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

16. Mewn perthynas â heriau ariannol a gweithredol, mae'r adroddiad yn disgrifio dyheadau Llywodraeth Cymru i ostwng y galwadau diangen er mwyn rhyddhau adnoddau a chapasiti.

17. Mae hefyd yn dangos sut gellid gwneud gwell defnydd o unrhyw gynnydd o ran capasiti o ganlyniad, fel rhan o rôl ehangach diffoddwr tân neu wella'r amser sydd ar gael i ddiffoddwyr tân gynnal eu cymwyseddau gweithredol eu hunain.

18. Yn yr adran beth yw galwadau diangen, caiff categorïau System Adrodd Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref ar gyfer galwadau diangen eu disgrifio. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol a wnaed dros nifer o flynyddoedd i herio'r rhai a allai fod yn gwneud galwadau maleisus i'r Gwasanaeth, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y gyfran fwyaf o alwadau diangen yn deillio o systemau larwm tân awtomatig diffygiol.

19. Un pwynt i'w nodi yma yw y bydd hyn hefyd yn cynnwys galwadau diangen mewn lleoliadau domestig. Nid yw galwadau diangen mewn lleoliadau domestig o fewn cwmpas yr adolygiad hwn ac nid oes unrhyw awydd i leihau ein presenoldeb mewn digwyddiadau o'r math hwn, gan eu bod yn helpu ein staff i fynd allan o'r orsaf a darparu cymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân.

20. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i dynnu sylw at oblygiadau ariannol ymateb i alwadau tân diangen pan nad oes angen iddynt, gan hefyd nodi'r cymhlethdodau o fesur unrhyw arbedion termau real yn gywir. Darperir enghreifftiau o adegau mae Gwasanaethau yn Lloegr wedi dechrau adennill costau trwy godi tâl am ymateb i alwadau gan bobl sy'n droseddwyr ailadroddus cronig.

21. Disgrifir hefyd y goblygiadau amgylcheddol a diogelwch ffyrdd sy'n deillio o ymateb i ddigwyddiadau pan nad oes angen iddynt.

22. Mae adran olaf yr adroddiad yn archwilio'r polisi cyfredol y mae GTAGC yn ei ddefnyddio, yn ogystal â data perfformiad sy'n disgrifio gostyngiad sylweddol ers 2015/16, gyda nodyn rhybuddiol i dynnu sylw at gynnydd bach yn 2021/22. Unwaith eto, rhaid inni gydnabod bod yr adran hon yn cyfeirio at gynnydd ar y cyd ar gyfer eiddo domestig ac annomestig. Serch hynny, mae angen monitro unrhyw gynnydd yn barhaus, yn arbennig mewn lleoliadau annomestig.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Lleihau Galwadau Tân Diangen – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3621A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adrannau 17 a 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

**Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân diangen annomestig y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a materion o ran capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig-ar-risg yn gynaliadwy**

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 7

Mae awdurdodau tân ac achub yn wynebu'r amgylchedd ariannol a gweithredol anoddaf mewn cenhedlaeth 7

Beth yw galwadau tân diangen a pham eu bod yn bwysig? 9

Rheoli galwadau diangen yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 15

Atodiad 1 23

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu dull yr Awdurdod o leihau galwadau tân diangen, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ei ddull o ymateb i safleoedd annomestig. Roedd ein harchwiliad yn cynnwys adolygu polisi'r Awdurdod, sut y cafodd ei ddatblygu ac y mae'n cael ei roi ar waith, sut y caiff galwadau diangen eu monitro, a sut y caiff perfformiad ei reoli a'i werthuso.

2 Fe wnaethom archwilio galwadau diangen oherwydd y niferoedd sylweddol y mae Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) Cymru'n ymateb iddynt. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael effaith weithredol, ariannol ac amgylcheddol sylweddol. Maent hefyd yn faes allweddol ar gyfer gwella yn Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016[1], a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

3 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023.

### Yr hyn a ganfuom

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall ei wneud i leihau nifer y galwadau tân diangen annomestig a'i ymatebion iddynt?**

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân diangen annomestig y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a materion o ran capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig-ar-risg yn gynaliadwy.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Awdurdod yn dangos dealltwriaeth dda am leoliadau, achosion ac effeithiau galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig.
- mae gan yr Awdurdod bolisi sydd wedi ymwreiddio'n dda i ymdrin â galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig ac mae wedi diwygio'i ddull i adlewyrchu risgiau esblygol.
- mae'r Awdurdod yn monitro ymatebion i alwadau a ysgogir gan larymau tân awtomatig yn fanwl ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â safleoedd sy'n broblem.
- mae polisi'r Awdurdod wedi arwain at leihad dramatig yn nifer y galwadau tân diangen y mae'n ymateb iddynt. Fodd bynnag, mae niferoedd wedi codi'n gyson ers 2015-16 ac mae angen i Aelodau graffu ar berfformiad yn y dyfodol yn wyneb pwysau ariannol sy'n gryn her.

[1] Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016, Llywodraeth Cymru

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi eu hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Dangos effaith galwadau tân diangen**<br>A1 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu cyfleoedd i adeiladu ar ddealltwriaeth yr Awdurdod am effaith galwadau tân diangen ar ei ddefnydd o adnoddau. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod yr Awdurdod:<br>• yn diweddaru ei ddadansoddiad ariannol i gofnodi effaith ymateb i alwadau diangen ar draws ei wasanaethau.<br>• wrth feintioli effaith ymateb i alwadau diangen, yn dadansoddi ac yn adrodd ar effaith ymateb i alwadau diangen gan fwrw golwg ar yr oriau a gollwyd gan griwiau amser cyflawn a chriwiau ar alwad a ymatebodd iddynt. Bydd hyn yn helpu i gefnogi penderfyniadau strategol ynglŷn â rôl gynyddol diffoddwyr tân ac yn helpu i oleuo ymagwedd yr Awdurdod yn y dyfodol at gynnal cymhwysedd diffoddwyr tân.<br>• fel rhan o'i fframwaith adrodd ar berfformiad, yn adrodd ar nifer y galwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig (AFA) nad ydynt yn ennyn ymateb brys dan ei bolisi cyfredol, gan gynnwys fel cyfran o'r holl alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig. Bydd hyn yn helpu'r Awdurdod i ddangos effaith ei bolisi cyfredol.<br>• yn adolygu'r llwybrau a ddefnyddir i gofnodi data ar alwadau diangen (e.e. ffurflenni ar ôl digwyddiadau, gwybodaeth reoli) i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir ac yn gyson. |
| **Gwella integreiddio**<br>A2 Canfuom eglurder cyfyngedig ynghylch sut y mae data ar alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig (yn rhai sy'n ennyn ymateb brys, ac yn rhai nad ydynt) yn cael ei ddefnyddio gan dimau diogelwch tân. Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn cynnwys data ar yr holl alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig mewn safleoedd annomestig fel rhan o ddatblygu ei ddangosfyrddau data newydd, a'i fod yn darparu mynediad priodol at dimau diogelwch tân i fusnesau. Bydd hyn yn helpu i wella'r defnydd o gudd-wybodaeth i oleuo llwyth gwaith timau diogelwch tân i fusnesau mewn modd rhagweithiol. |

**Argymhellion**

**Meithrin cydnerthedd**

A3 Mae'r rhan derfynol o'r adroddiad hwn yn amlygu heriau o ran capasiti sy'n bygwth tanseilio effeithiolrwydd dull seiliedig-ar-risg yr Awdurdod o reoli galwadau diangen. Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn adolygu anghenion datblygu Aelodau ac yn teilwra cyfleoedd hyfforddi'n briodol i gefnogi eu rôl o ran craffu ar berfformiad a chefnogi gwelliant.

# Adroddiad manwl

## Mae awdurdodau tân ac achub yn wynebu'r amgylchedd ariannol a gweithredol anoddaf mewn cenhedlaeth

### Disgwyliadau'r Fframwaith Cenedlaethol

6 Mae Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Tân yn nodi lleihau galwadau diangen fel arbediad effeithlonrwydd allweddol sydd ar gael i ATAau[2]. Mae'n nodi bod ymateb i alwadau diangen yn dwyn costau ariannol a costau cyfle sylweddol, i ATAau a deiliaid adeiladau, ac nad yw'n dwyn unrhyw fudd o gwbl. Mae hyn yn cael effaith arbennig o fawr gan bod mwy o alwadau diangen nag o danau gwirioneddol. Yn 2021-22, roedd 47% o gyfanswm y digwyddiadau yr ymatebodd yr Awdurdod iddynt yn alwadau diangen, sy'n dangos y baich sylweddol y maent yn ei roi ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau 'Adnabod prif ffynonellau galwadau diangen a chymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i leihau eu nifer'.

7 Wrth lunio'u dull, rhaid i ATAau ddangos yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016 hefyd. Mae'n ofynnol i ATAau ddangos sut y maent yn bwrw golwg hirdymor ar welliant sy'n canolbwyntio ar atal, cynnwys pobl, ac integreiddio a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

8 Felly, disgwyliad Llywodraeth Cymru yw gweld lleihad mewn ymatebion i alwadau diangen er mwyn rhyddhau adnoddau a chapasiti. Byddai hyn hefyd yn rhoi ATAau mewn sefyllfa gryfach i wireddu uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru.

### Tyfu rôl y diffoddwr tân

9 Mae angen lleihau galwadau diangen i ddarparu'r capasiti ychwanegol i gwrdd â disgwyliadau polisi Llywodraeth Cymru. Ers cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol yn 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfeiriad polisi ehangach ar gyfer ATAau. Mae hyn yn golygu ehangu rôl diffoddwyr tân i gefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol, megis ymateb i gwympiadau heb anafiadau. Cymeradwywyd hyn gan y Cabinet yn 2020.

10 Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hasesiad a oedd yn ystyried a ellid ehangu rôl diffoddwyr tân heb achosi anfantais i'r gwasanaeth tân ac achub craidd. Hyd yn oed heb gyflawni rôl ehangach, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod 'angen adolygiad sylfaenol o drefniadau gwaith gorsafoedd i sicrhau bod gweithgarwch yn

[2] Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016, Llywodraeth Cymru

cael ei amserlennu'n briodol i sicrhau'r allbwn mwyaf'. Canfu dadansoddiad nad oedd unrhyw gapasiti heb ei ddyrannu yn ystod sifft ddydd criwiau amser cyflawn, a fyddai'n cyd-daro ag oriau brig y galw ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru rhwng 7am a chanol dydd.[3]

11 Nododd Llywodraeth Cymru ddiffyg amser hyfforddi digonol hefyd ac fe arweiniodd hynny at ail adolygiad thematig a ganolbwyntiodd ar hyfforddiant gweithredol[4]. Daeth i'r casgliad nad oedd digon o amser hyfforddi ar gael, yn enwedig i ddiffoddwyr tân dan y System Dyletswydd yn ôl y Galw (RDS). Argymhellodd yr adroddiad fod ATAau yn 'cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi'.

12 O ystyried yr effaith ehangach ar draws y gwasanaeth, gall lleihad mewn ymatebion i alwadau diangen helpu i gynyddu capasiti, y mae ei angen i helpu i dyfu rôl y diffoddwr tân. Mae hyn ochr yn ochr â gofynion eraill, megis arweinyddiaeth gan uwch swyddogion ac aelodau, cydweithio effeithiol, dadansoddiadau data cadarn, a chraffu effeithiol.

## Gostyngiadau mewn adnoddau

13 Mae ATAau wedi gorfod cyflawni o fewn cyllidebau llai o lawer yn ystod blynyddoedd o gyni a, fel yr holl gyrff cyhoeddus, rhaid iddynt barhau i addasu i ymateb i'r pwysau ariannol cyfredol. O ganlyniad, mae Awdurdodau wedi gorfod cynnal eu gwasanaethau â llai o adnoddau ac wedi bod yn canolbwyntio ers amser hir ar ailgydbwyso'u pwyslais o ymateb i ddigwyddiadau i atal tanau a gwella diogelwch.

14 Mewn termau real, fe brofodd yr Awdurdod ostyngiad o 6.3% (£2.6 miliwn) mewn gwariant refeniw rhwng 2009-10 a 2021-22[5]. Dros yr un cyfnod, fe leihaodd y galwadau a gafwyd gan yr Awdurdod 27.6%[6] ac fe leihaodd nifer y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt 38.2%[7]. Lleihaodd nifer y staff a gyflogir gan yr Awdurdod 15.6% rhwng 2009-10 a 2021-22 hefyd (**Arddangosyn 2**):

[3] Llywodraeth Cymru, Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru, Tachwedd 2021

[4] Llywodraeth Cymru, Adolygiad thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Hydref 2022

[5] StatsCymru, Gwariant alldro refeniw yn ôl awdurdod

[6] StatsCymru, Galwadau a gafodd eu trin gan staff CagALl mewn gwylfeydd rheoli tân yn ôl y math o alwad a'r flwyddyn ariannol

[7] StatsCymru, Tanau, Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig a Galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt gan Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

**Arddangosyn 2: Personél (cyfrif pennau) ATA Gogledd Cymru yn ôl math o gyflogaeth, rhwng 2009-10 a 2021-22**

| Rôl | 2009-10 | 2020-21 | Newid |
|---|---|---|---|
| Staff amser cyflawn mewn lifrai | 294 | 278 | -5.4% |
| Staff ar ddyletswydd yn ôl y galw | 556 | 429 | -22.8% |
| Staff rheoli tân | 33 | 30 | -9% |
| Staff anweithredol | 151 | 136 | -9.9 |
| Yr holl staff | 1,034 | 873 | -15.6% |

Ffynhonnell: StatsCymru

# Beth yw galwadau tân diangen a pham eu bod yn bwysig?

## Diffiniad a mathau


15 O fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, caiff galwadau diangen eu categoreiddio'n dri math:

- **Maleisus** – galwad a wnaed gan fwriadu cael ymateb i ddigwyddiad yn gysylltiedig â thân nad yw'n bodoli.
- **Â bwriad da** – galwad a wnaed â phob ewyllys da gan feddwl y byddai angen ymateb.
- **Oherwydd cyfarpar** – galwad a ysgogwyd gan larwm tân neu offer diffodd tân (gan gynnwys cael ei hysgogi'n ddamweiniol).

16 Mae **Arddangosyn 3** yn dangos, yn genedlaethol, bod galwadau diangen 'oherwydd cyfarpar' yn rhoi cyfrif am ychydig o dan 60% o gyfanswm y galwadau diangen.[8]

[8] Sylwer – mae hyn yn cynnwys galwadau tân domestig ac annomestig yr ymatebwyd iddynt oherwydd y modd yr adroddir ar ddata.


**Arddangosyn 3: cyfran o gyfanswm y galwadau diangen yng Nghymru yn ôl math, 2021-22**




Ffynhonnell: StatsCymru

17 Caiff y rhain eu hachosi'n nodweddiadol gan systemau Larwm Tân Awtomatig (AFA), sy'n rhwydweithiau o synwyryddion mewn adeiladau sy'n gysylltiedig â system larwm. Mae'r larymau'n gysylltiedig â Chanolfannau Derbyn Larymau (ARC). Oherwydd y dechnoleg sy'n golygu nad oes angen rheoli ar y safle, gall Canolfannau Derbyn Larymau fod wedi'u lleoli yn unrhyw ran o'r byd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i Ganolfannau Derbyn Larymau gofrestru gyda phob ATA yn yr ardaloedd y maent yn gweithredu ynddynt. Mae **Arddangosyn 4** yn disgrifio proses Larwm Tân Awtomatig pan gaiff ei hysgogi.

**Arddangosyn 4: Proses Larwm Tân Awtomatig**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

18 Pan geir galwad ddiangen trwy Larwm Tân Awtomatig, cyfeirir yn nodweddiadol at hyn fel Signal Tân Dieisiau (UwFS). Gan bod UwFS yn rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o alwadau diangen, dyma yw'r ffocws allweddol ar gyfer gweithgarwch lleihau

ledled y DU[9]. O ganlyniad, mae ffocws dull yr Awdurdod a'r archwiliad hwn wedi bod ar leihau UwFS, gan hefyd gwmpasu mathau eraill o alwadau diangen.

## Mae galwadau diangen yn effeithio ar gydnerthedd gwasanaethau Tân ac Achub

19 Fel gydag unrhyw ymateb gan yr Awdurdod i unrhyw ddigwyddiad, ceir effeithiau ariannol, gweithredol, amgylcheddol ac effeithiau ar ddiogelwch wrth ymateb i alwadau diangen.

20 Gyda'i gilydd, mae effeithiau ymateb i alwadau diangen yn sylweddol ac yn amlygu pwysigrwydd bod â dull effeithiol i leihau eu nifer. O ganlyniad, gall unrhyw welliant mewn perfformiad yn y cyd-destun hwn helpu'r Awdurdod i reoli'r pwysau ar ei adnoddau'n well a chynyddu capasiti i gyflawni hyfforddiant ychwanegol a thasgau eraill sy'n flaenoriaeth.

### Ariannol

21 Mae cyfanswm effeithiau ariannol ymateb i alwad ddiangen yn anodd i'w feintioli'n fanwl. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai cost anfon injan dân i ymateb i alwad ddiangen yn debyg os nad union yr un faint â chost anfon un i ymateb i ddigwyddiad go iawn, gan bod criwiau'n cael eu hanfon gan ddisgwyl bod tân go iawn. Mae hyn yn amrywio fesul Awdurdod yn seiliedig ar amryw ffactorau, megis daearyddiaeth, ond mae ATAau eraill yn y DU yn amcangyfrif mai oddeutu £350-400 yr awr[10] yw cost ymateb. Gan ddefnyddio'u hamcangyfrifon hwy, byddai cyfanswm y gost ariannol i ATA Gogledd Cymru am ymateb i gyfanswm y galwadau tân diangen a gafwyd yn 2021-22 rhwng £900,000 ac £1 miliwn.[11]

22 Yng Ngogledd Cymru, nid yw'r Awdurdod wedi meintioli cost ymateb i alwadau tân diangen dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth newid ei bolisi ar gyfer ymateb alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig[12] yn 2014, fe gymhwysodd yr Awdurdod gost dybiannol o £81.50 yr alwad ddiangen a ysgogwyd gan larwm tân awtomatig, i helpu i gyfrifo'r effaith ariannol bosibl. Roedd hyn yn seiliedig ar gost cyflogau criw o bedwar diffoddwr tân gyda rheolwr gwylfa i ymateb a bod yn bresennol mewn digwyddiad am un awr. Gan ddefnyddio'r cyfrifwr costau yma, cafodd effaith ariannol ymateb i alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig yn y blynyddoedd cyn y newid i'r polisi ei nodi fel a ganlyn: £158,273 (2011-12), £150,367 (2012-13) a £142,951 (2013-14).

[9] Er enghraifft, gweler canllawiau Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân

[10] Er enghraifft, tâl safonol ATA Dyfnaint a Gwlad yr Haf o £364.27 neu amcangyfrif ATA Swydd Buckingham o £305 gan ychwanegu TAW.

[11] Mae'r cyfrifiad tybiannol hwn yn seiliedig ar ddata a gyhoeddwyd sy'n cynnwys galwadau tân diangen domestig ac annomestig.

[12] Mae paragraff 37 yn disgrifio polisi'r Awdurdod.

23 Mae'r effaith ar gostau mewn ardaloedd gwledig yn haws i'w meintioli'n gywir, gan ddefnyddio ffioedd galw allan ar gyfer criwiau'r system dyletswydd yn ôl y galw (RDS) fel y sail. Mewn gwirionedd, serch hynny, mae'r mwyafrif o alwadau tân diangen yn digwydd mewn ardaloedd trefol lle mae gorsafoedd yn rhai â chriwiau amser cyflawn neu griwiau dydd. Yn wir, amcangyfrifodd yr Awdurdod yn 2014 mai dim ond 15% o'r galwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig yr ymatebodd iddynt oedd o'i orsafoedd system dyletswydd yn ôl y galw.

24 Amcangyfrifodd yr Awdurdod y byddai'r newid i'w bolisi yn 2014 yn arwain at arbed £25,000 mewn costau. Mae hyn yn seiliedig ar y galw ar orsafoedd system dyletswydd yn ôl y galw yn unig (h.y. oddeutu 15% o gyfanswm nifer y galwadau diangen). Mae hyn yn adlewyrchu ystyriaeth gyfyngedig i'r effaith ar ei adnoddau. Er bod y papur polisi wedi amlygu bod yr effaith ariannol yn mynd y tu hwnt i'r effaith ar ei orsafoedd system dyletswydd yn ôl y galw, nid aeth mor bell â nodi sut y byddai'n rhoi cyfrif am y gwahaniaeth rhwng yr arbediad o £25,000 mewn costau a amcangyfrifwyd ganddo a chost ariannol ehangach ymateb alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig (oddeutu £150,000 y flwyddyn), er enghraifft trwy nodi sut y gellid defnyddio'r arbedion a fyddai'n deillio o'r newid i'w bolisi – e.e. buddsoddi mewn offer, hyfforddiant neu gyfraniad pellach at fynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb.

25 I wrthweithio effaith ariannol ymateb i alwadau diangen, mae rhai ATAau yn Lloegr wedi rhagnodi taliadau ar gyfer safleoedd sy'n cynhyrchu galwadau diangen lluosog. Er enghraifft, mae ATA Cleveland yn codi £345 (heb gynnwys TAW) ar safleoedd o'u pumed alwad.[13] Yn yr un modd, mae ATA Glannau Humber yn codi isafswm o £365.75 o'r bedwaredd alwad ddiangen.[14]

## Gweithredol

26 Mae ymateb i alwadau diangen yn tarfu heb fod angen. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd lleihau'r galwadau yr ymatebir iddynt. Gall ddargyfeirio pobl oddi wrth hyfforddiant, gwaith atal, neu waith ymgyfarwyddo â safleoedd, sydd i gyd yn dasgau hollbwysig er mwyn i griw gynnal gallu gweithredol. Mae tarfu ar hyfforddiant yn arbennig o gostus, fel a amlygwyd gan adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru[15], sy'n nodi risgiau o beidio â chynnal cymwyseddau staff pan fo criwiau'n ymateb yn rheolaidd i alwadau diangen.

27 Gallai'r effaith weithredol fod yn arwyddocaol i ddiffoddwyr tân sydd ar ddyletswydd yn ôl y galw, sydd â llai o gapasiti i fynychu hyfforddiant o'i gymharu â chriwiau amser cyflawn. Yn nodweddiadol, mae diffoddwyr tân sydd ar ddyletswydd yn ôl y

[13] ATA Cleveland, Fire Alarms

[14] ATA Glannau Humber, Call out charges 2022-23

[15] Llywodraeth Cymru, Adolygiad thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Hydref 2022

galw'n cael dwy i dair awr o hyfforddiant yr wythnos, a all gael eu colli'n llwyr os yw'n ofynnol iddynt ymateb i alwadau diangen yn ystod oriau hyfforddi.

28 Hefyd, gan bod model y system dyletswydd yn ôl y galw'n dibynnu ar ewyllys da cyflogwyr i ryddhau staff i ymateb i alwad yn ystod eu horiau gwaith, mae cynyddu ymatebion i alwadau diangen yn creu perygl o atal busnesau rhag cefnogi eu staff i ymgymryd â rôl fel rhan o'r system dyletswydd yn ôl y galw. Gallai hyn gael effaith negyddol ar gadw staff.

### Amgylcheddol

29 Fel a nodwyd yn ein hadroddiad ar Leihau Allyriadau Carbon[16] yn 2021-22, ceir effeithiau amgylcheddol sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau tân ac achub. Mae hyn yn cynnwys defnyddio tanwydd ar gyfer ymateb, yn ogystal ag effaith amgylcheddol teithio gan ddiffoddwyr tân i'w gorsaf. O ystyried bod 47% o'r holl ddigwyddiadau yr ymatebodd yr Awdurdod iddynt yn 2021-22 yn alwadau tân diangen[17], mae'n faes lle gellid lleihau allyriadau carbon yn sylweddol.

### Diogelwch

30 Mae lleihau galwadau diangen yn hollbwysig i leihau risgiau i ddiogelwch. Mae nifer yr achosion o alwadau diangen yn cael effaith a allai fod yn sylweddol ar risgiau i ddiogelwch cymunedau hefyd, megis risgiau i ddiogelwch ar y ffyrdd a hunanfodlonrwydd.

31 Mae risgiau i ddiogelwch ar y ffyrdd yn bresennol pryd bynnag y mae'r gwasanaethau brys yn ymateb i ddigwyddiad. Gall gyrru ar gyflymder neu dan amodau golau glas achosi risgiau sylweddol i griwiau a defnyddwyr eraill y ffyrdd. Mae'r risg hefyd yn bresennol ar gyflymder arferol y ffordd, oherwydd maint a phwysau sylweddol injans tân.

32 Gall niferoedd uchel o alwadau diangen arwain at hunanfodlonrwydd ymhlith deiliaid adeiladau a dinasyddion hefyd. Er enghraifft, gall arwain at ddiffyg ymateb yn ystod digwyddiad go iawn, gan achosi mwy o risg i'r meddianwyr a'r criw sy'n ymateb. Felly mae lleihau galwadau diangen yn helpu i leihau'r risgiau i ddiogelwch criwiau'r Awdurdod a chymunedau.

## Yr hyn y mae eraill yn ei wneud

33 Mae ATAau ledled y DU wedi llunio gwahanol ddatrysiadau i fynd i'r afael â nifer y galwadau diangen. Maent yn faich sylweddol ar y gorsafoedd lleol ac yn cyfyngu ar

[16] Lleihau allyriadau carbon yn ATA Gogledd Cymru, Archwilio Cymru, Mawrth 2022

[17] Tanau, Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig a Galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt gan Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (llyw.cymru)

yr amser y gellir ei dreulio ar faterion eraill. Canfu ymchwil gan y Swyddfa Gartref[18] fod 63,000 o oriau wedi cael eu gwastraffu yn Lloegr yn ystod 2017-18 o ganlyniad i ymateb i alwadau diangen.

34 O ganlyniad, mae gwasanaethau tân ac achub Lloegr wedi datblygu ystod o ddulliau i helpu i leihau nifer y galwadau diangen yr ymatebir iddynt, sy'n amrywio o ran y defnydd ohonynt **(Arddangosyn 5)**.

**Arddangosyn 5: dulliau enghreifftiol a ddefnyddiwyd gan ATAau Lloegr yn 2018**

| Dull | Disgrifiad | Cyfran ATAau Lloegr a fabwysiadodd y dull yn 2018 |
|---|---|---|
| Herio galwadau | Lle mae staff rheoli tân yn gofyn cwestiynau i'r rhai sy'n gwneud galwad i gadarnhau a yw tân yn un go iawn i atal ymateb cyntaf. | 93% |
| Mentrau addysg a gwybodaeth | Rhoddir gwybodaeth neu ddeunyddiau i ddeiliaid adeiladau am yr angen i leihau galwadau diangen. | 93% |
| Dim angen cadarnhad | Anfonir ymateb arferol heb gadarnhad. | 76% |
| Ymatebion wedi'u haddasu | Fe ymatebir ar unwaith ond mae'n llai na'r Ymateb Rhagderfynedig (PDA), e.e. anfonir un injan dân i ymchwilio yn hytrach na thair. | 74% |
| Angen cadarnhad (neu 'ail alwad') | Anfonir ymateb dim ond os ceir galwad i gadarnhau bod tân, neu os oes galwadau lluosog yn cael eu hachosi. | 60% |
| Camau gorfodi | Cymerir camau gorfodi cyfreithiol yn erbyn safleoedd sy'n aml yn achosi galwadau diangen, megis archwiliad o ddiogelwch tân neu ddirwy. | 33% |
| Dirwyon | Codir tâl ar safleoedd â galwadau diangen mynych. | 24% |
| Peidio at ymateb | Ar ôl rhybudd, nid ymatebir i safleoedd sy'n achosi galwadau diangen yn fynych. | 13% |

Ffynhonnell: Ymchwil y Swyddfa Gartref

35 Mae Cymdeithas Genedlaethol y Prif Swyddogion Tân wedi cyhoeddi pecyn cymorth[19] i gynorthwyo ATAau gyda'u gwaith i reoli galwadau diangen a'r opsiynau posibl i'w hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

[18] Y Swyddfa Gartref, Trends in fire false alarms and fire false alarm policies, Tachwedd 2022

[19] Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân, Unwanted fires signals toolbox

- peidio ag ymateb i alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig yn ystod y dydd oni bai fod lefel uwch o risg (e.e. risg bod rhywun yn cysgu neu safle risg-uwch fel ysbyty).
- codi tâl ar ddeiliaid adeilad sy'n achosi UwFS yn fynych.
- ei gwneud yn ofynnol i safleoedd gofrestru eu larymau tân awtomatig i'w gwneud yn bosibl monitro'n fanylach i helpu trinwyr galwadau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth well.
- pennu trothwyon ar gyfer ymateb wedi'i addasu yn seiliedig ar nifer y synwyryddion mewn adeilad (e.e. byddai adeilad â 500 o synwyryddion yn cael ymateb llawn gyda deg UwFS tra na fyddai adeilad â 100 o synwyryddion yn ei gael).
- blaenoriaethu gwaith ar addysgu a hysbysu pobl ynghylch eu cyfrifoldebau a bod â swyddogion wedi'u neilltuo i helpu i hwyluso newid mewn adeiladau/sefydliadau â niferoedd uchel o alwadau diangen.
- ymgysylltu â Chanolfannau Derbyn Larymau i wella'r modd yr ymdrinnir â galwadau ac annog cyrff i gynnal gwiriadau gweledol i gadarnhau bod tân.

36 Mae'r pecyn cymorth ac ymchwil yn dangos ehangder y dulliau sydd ar gael i ATAau, gan adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol a'u parodrwydd i dderbyn risg.

# Rheoli galwadau diangen yn ATA Gogledd Cymru

## Polisi cyfredol

37 Mae gan yr Awdurdod bolisi sy'n eglur ac wedi ymwreiddio'n dda i benderfynu ar ei ymateb i alwadau a ysgogir gan larymau tân awtomatig. Ni fydd yn anfon ymateb brys pan ysgogir galwad gan larwm tân awtomatig oni bai y ceir galwad 999 ategol i gadarnhau bod tân. Ceir eithriadau a fydd yn ennyn ymateb, sef:

- pob eiddo preswyl – lle mae'r cyfrifoldeb am ddiogelwch y deiliaid yn gorwedd gyda'r unigolion sy'n byw yno – bydd CEF Berwyn, ysbytai, tai gwarchodol a thai amlfeddiannaeth yn dal i gael ymateb.
- bydd lletyau cysgu eraill ac ysgolion – megis cartrefi gofal, hostelau, pob ysgol a choleg, gwestai a neuaddau preswyl wedi'u heithrio rhwng 8pm ac 8am. Yn ystod yr oriau hyn, byddant yn ymateb i alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig.

- pob safle Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)[20] yng Ngogledd Cymru a fydd yn dal i gael ymateb fel arfer.
- mae gan adran Reoli'r Awdurdod restr hefyd o safleoedd masnachol/diwydiannol eraill y bydd yn ymateb iddynt. Caiff y broses o gymhwyso eithriadau ei goruchwylio gan y Pennaeth Diogelwch Tân.

38 Cafodd y rhifyn cyfredol o bolisi'r Awdurdod ei fabwysiadu ym mis Medi 2022, yn dilyn adolygiad. Fe ganolbwyntiodd yr adolygiad ar broffil risgiau esblygol oherwydd newidiadau ym meddiannaeth adeiladau o ganlyniad i'r pandemig. Er enghraifft, os oedd yn llai tebygol y byddai rhywun yn bresennol mewn adeilad cyhoeddus byddai disgwyl galwad 999 ategol fel arfer i gadarnhau tân. Heblaw am adolygu rhai eithriadau, mae'r polisi cyfredol yn atgyfnerthu'r dull a fabwysiadwyd yn 2014 fwy neu lai. Cyn 2014, roedd yr Awdurdod yn ymateb i'r holl alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig heb eu herio rhyw lawer neu heb eu herio o gwbl.

## Perfformiad cyfredol

39 Fe arweiniodd y polisi a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn 2014 at leihad dramatig yn nifer y galwadau tân diangen y mae'n ymateb iddynt. Er bod ymatebion i alwadau diangen yn dal i fod yn gyfran sylweddol o'r holl ddigwyddiadau y mae'r Awdurdod yn ymateb iddynt, dengys **Arddangosyn 6** fod cyfanswm y digwyddiadau wedi gostwng dros amser. Mae'r Awdurdod yn ymateb i oddeutu 700 yn llai o alwadau diangen o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl; lleihad o 22%.

**Arddangosyn 6: yr holl alwadau diangen y mae'r Awdurdod wedi ymateb iddynt dros y 10 mlynedd ddiwethaf**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr holl ddigwyddiadau yr ymatebwyd iddynt (mae'n cynnwys galwadau tân diangen)** | 6,803 | 6,356 | 6,099 | 4,879 | 5,348 | 5,733 | 5,300 | 4,872 | 4,699 | 5,354 |


[20] Safleoedd a gwmpesir gan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 2015 yw safleoedd COMAH. Mae'r rheoliadau'n cwmpasu unrhyw sefydliad sy'n storio symiau mawr o gemegau diwydiannol peryglus neu'n trin y rhain fel arall.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt** | 3,229 | 3,088 | 3,203 | 1,975 | 2,124 | 2,102 | 2,256 | 2,263 | 2,302 | 2,506 |
| **Galwadau tân diangen fel cyfran o'r holl ddigwyddiadau** | 47% | 49% | 53% | 40% | 40% | 37% | 43% | 46% | 49% | 47% |

Ffynhonnell: Tanau, Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig a Galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt gan Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (llyw.cymru)

40 Caiff effaith y newid i'r polisi yn 2014 ei dangos yn glir gan ddata ar y modd y mae'r Awdurdod wedi ymateb i alwadau tân a ysgogwyd gan gyfarpar. Dengys **Arddangosyn 7** fod yr Awdurdod wedi ymateb i 1,972 o alwadau diangen o'r math yma yn 2013-14, y flwyddyn cyn y newid i'w bolisi. Yn y flwyddyn ganlynol, pan oedd wedi dechrau gweithredu yn ôl y polisi newydd (2014-15), fe leihaodd hyn i 966. Er bod y data'n cynnwys larymau tân awtomatig ar safleoedd domestig ac annomestig, mae'n dangos lleihad sylweddol mewn galwadau diangen sy'n dangos effaith gadarnhaol ei bolisi. Hefyd, mae perfformiad wedi cael ei gynnal ers 2014 gyda nifer y galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2021-22 ryw 29% yn is na 10 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n gyson ers 2015-16, gan amlygu'r angen i adolygu a monitro ymatebion yn rheolaidd.

**Arddangosyn 7: galwadau diangen oherwydd cyfarpar (domestig ac annomestig), dros gyfnod o 10 mlynedd**




Ffynhonnell: Galwadau diangen yn ôl rheswm a blwyddyn ariannol (llyw.cymru)

## Deall yr her

41 Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda am leoliad, achos ac effaith galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig. Mae swyddogion yn disgrifio effeithiau galwadau diangen yn glir ac yn gyson. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr effaith ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu a'r risgiau o ran cynnal cymhwysedd, yn enwedig i weithlu gweithredol sydd ar ddyletswydd yn ôl y galw yn bennaf;
- y materion o ran argaeledd a chapasiti, a sut y mae ymateb i alwadau diangen yn creu risg i gapasiti criwiau i ymateb i achos brys go iawn;
- mwy o risgiau ar y ffyrdd mewn perthynas ag ymateb brys; a
- risgiau mewn perthynas â hunanfodlonrwydd y cyhoedd, sy'n effeithio ar sut y gallai pobl ymateb i achos brys go iawn.

42 Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth yr Awdurdod am effaith amgylcheddol ac ariannol ymateb i alwadau diangen wedi datblygu i'r un graddau. Fel a ddisgrifir uchod (paragraffau 21-23), aeth peth amser heibio ers i'r Awdurdod feintioli a diweddaru ei asesiad o effaith ariannol ymateb i alwadau diangen. Er mwyn i'r Awdurdod wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran ehangu rôl y diffoddwr tân yn y dyfodol mewn modd effeithiol, bydd angen iddo ddangos bod ganddo afael fwy cadarn ar effaith galwadau diangen ar ei adnoddau, gan gynnwys staff amser cyflawn a staff sydd ar ddyletswydd yn ôl y galw.

43 Yn gadarnhaol, mae'r Awdurdod yn dysgu o'i ddull blaenorol o leihau ymatebion i alwadau diangen. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos, ers y gostyngiad cychwynnol

yn dilyn cyflwyno'i bolisi yn 2014, bod ymatebion i alwadau diangen oherwydd cyfarpar wedi cynyddu 45% rhwng 2015-16 a 2021-22. Wrth adolygu ei ddull, canfu'r Awdurdod y gallai ei bolisi fod wedi cael ei gymhwyso'n rhy llym i ddechrau, ac mae'r rhestr o unedau eiddo sydd wedi'u heithrio wedi cynyddu dros amser wrth i'w ddealltwriaeth am risg ddatblygu. Hefyd, disgrifiodd swyddogion effaith adeiladu nifer gynyddol o ddatblygiadau tai newydd gyda systemau larwm tân awtomatig fel elfen safonol – er enghraifft, cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu â larymau mwg gwifredig ac adeiladau amlfeddiannaeth gyda systemau sy'n bresennol mewn ardaloedd cymunol.

44 Mae'r Awdurdod yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ymatebion i alwadau diangen ac mae ganddo ddealltwriaeth dda am y math o sefydliadau sy'n creu'r galw mwyaf yn hyn o beth. Er enghraifft, fe wnaeth adroddiad i Dîm Arwain Gwasanaethau'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2022 amlygu nifer y galwadau diangen a'r rhesymau dros eu hysgogi. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r 152 o alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig mewn unedau eiddo annomestig yn ail chwarter 2022-23. O'r rhain, roedd 134 mewn ysbytai. Mae hyn yn adlewyrchu'r her allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod wrth geisio lleihau galwadau diangen – y bwrdd iechyd sy'n achosi'r mwyaf ohonynt o bell ffordd.

45 Mae gan yr Awdurdod systemau da i gofnodi a mesur nifer a natur y galwadau tân diangen. Er enghraifft, mae ei blatfformau mewnol yn hwyluso'r broses o adrodd am alwadau diangen i'w gwneud yn bosibl cofnodi gwybodaeth fanwl a'i rhannu gyda chydweithwyr yn y bwrdd iechyd i helpu i adnabod tueddiadau. Gan adeiladu ar hyn, fe wnaeth swyddogion y cyfwelom ni â hwy amlygu prosiectau sy'n mynd rhagddynt i ddatblygu dangosfyrddau data mewn amser real i helpu i arfogi a grymuso timau lleol i reoli ymatebion yn seiliedig ar ddata mwy gronynnog.

46 Er gwaethaf y datblygiad cadarnhaol yma, nid yw dangosfyrddau data ond mor dda â'r wybodaeth a fewnbynnir. Yn hyn o beth, canfuom gyfleoedd i wella sut y mae'r Awdurdod yn cofnodi data. Er enghraifft, ceir anghysonderau o ran sut y mae'r Awdurdod yn cofnodi data pan fo injans tân yn cael eu galw'n ôl i'r orsaf cyn cyrraedd pen y daith. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys anghysonderau o ran sut y mae ffurflenni ar ôl digwyddiadau'n cael eu cwblhau gan griwiau ymateb yn dilyn ymateb i alwadau diangen.

47 Ceir rhai dehongliadau amrywiol hefyd o'r hyn sy'n gyfystyr â 'galwad ddiangen' – er enghraifft, gan ddibynnu ar eich safbwynt, gallai patrwm diweddar o ddigwyddiadau a arweiniodd at ysgogi galwadau gan larymau tân awtomatig yn CEF Berwyn yn Wrecsam gael ei ddisgrifio fel tanau, digwyddiadau llosgi bwriadol neu alwadau diangen. Bydd cytuno ar y diffiniadau a sicrhau cysondeb o ran sut y caiff data'i gofnodi'n rhoi mwy o hyder i'r Awdurdod wrth ddefnyddio data i oleuo dulliau yn y dyfodol i leihau galwadau diangen.

48 Ar adeg ein harchwiliad, canfuom gyfle i wella sut y mae'r Awdurdod yn cofnodi ac yn defnyddio data ar alwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig sydd y tu allan i'w bolisi ymateb (e.e. eiddo masnachol risg isel). Byddai adrodd ar nifer y galwadau y mae'r Awdurdod wedi peidio ag ymateb iddynt, ynghyd â data ariannol

mwy cadarn, yn ei helpu i ddangos yn well beth yw effaith ei bolisi dros amser. Ar ben hynny, mae patrymau mewn galwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig yn bwysig i'w monitro hyd yn oed os nad yw'r Awdurdod yn ymateb. Gall patrymau o'r fath ddynodi eiddo a reolir yn wael yng nghyd-destun diogelwch tân. Ac mae'r risg y bydd galwadau diangen yn achosi hunanfodlonrwydd ymhlith y cyhoedd yn dal i fod yn berthnasol, ni waeth pa un a yw'r Awdurdod yn ymateb ai peidio.

## Mynd i'r afael â safleoedd problemus

49 Er nad yw'n glir i ba raddau y gwnaeth yr Awdurdod ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach a'u cynnwys wrth lunio'i bolisi yn 2014, cafodd y newid dull ei gyfleu'n dda ar y pryd, gan helpu i sicrhau proses bontio esmwyth. Fe wnaeth llenyddiaeth hyrwyddo dargedu'r rhai y byddai'r newid yn effeithio arnynt ac fe wnaeth cynllunio cyfathrebiadau helpu'r Awdurdod i baratoi ar gyfer unrhyw adlach negyddol.

50 Fel prif ffynhonnell galwadau diangen a ysgogir gan larymau tân awtomatig ledled y rhanbarth, mae gan yr Awdurdod ddull da o weithio gyda'r bwrdd iechyd i leihau nifer y galwadau a ysgogir. Mae swyddogion yn dangos dealltwriaeth ardderchog am brif achosion galwadau a ysgogir gan larymau tân awtomatig yn y safleoedd problemus hyn, gan ddefnyddio data gronynnog i ategu dadansoddiad manwl o'r prif achosion ar safleoedd ysbytai. Mae'r modd y rhennir gwybodaeth yn nodweddiadol o'r perthnasoedd gweithio da rhwng yr Awdurdod a'r timau ystadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hyn yn bwysig oherwydd, ar ôl penderfynu yn erbyn egwyddor cymryd camau gorfodi mewn safleoedd problemus, mae'r Awdurdod yn dibynnu ar berthnasoedd gweithio da i ddylanwadu ar newid.

51 Serch hynny, er gwaethaf y perthnasoedd cadarnhaol mae cyflymder y newid gan bartneriaid yn araf ac mae'r bwrdd iechyd yn dal i achosi nifer sylweddol o alwadau diangen. Mae newidiadau i ymateb rhagderfynedig yr Awdurdod yn adlewyrchu'r heriau y mae hyn yn eu hachosi. Er enghraifft, i leihau'r effaith ar ei adnoddau, mae ymateb yr Awdurdod yn ystod y dydd yn cynnwys anfon dim ond un injan dân i ysbytai yn dilyn galwad a ysgogwyd gan larwm tân awtomatig, gan ddisgwyl mai galwad ddiangen fydd hi. Mae hwn yn gydbwysedd anodd i'w daro ac yn dibynnu ar barodrwydd yr Awdurdod i dderbyn risg – os oes tân mawr mewn ysbyty, mae'n annhebygol y byddai un injan dân yn gallu ei ddiffodd, a gallai'r oedi cyn bod ail injan dân yn cyrraedd fod yn sylweddol. Nid yw parodrwydd yr Awdurdod i dderbyn risg yn ymestyn i archwilio hyn ymhellach, er enghraifft trwy gymhwyso'r un rhesymeg fel y sail dros beidio ag anfon unrhyw injans tân mewn ymateb i alwadau a ysgogir gan larymau tân awtomatig mewn ysbytai.

## Dull cynaliadwy?

52 Ar y cyfan, canfu ein hadolygiad fod gan yr Awdurdod ddull da, seiliedig-ar-risg o reoli galwadau diangen. Fodd bynnag, mae'r anawsterau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u canoli ar ei gapasiti i gynnal ei ddull cyfredol a pharhau i

ddarparu adnoddau ar gyfer ei wasanaethau mewn modd sy'n adlewyrchu risgiau. Yn hyn o beth, ac o ystyried y galw sylweddol y maent yn dal i'w roi ar yr Awdurdod, ni ellir ystyried bod galwadau diangen yn fater unigol a rhaid eu hystyried ochr yn ochr â'r heriau ehangach sy'n wynebu'r Awdurdod.

53 Mae'r Awdurdod ar siwrne o newid ac mae'r arweinyddiaeth newydd wedi arwain at gyflwyno nifer o faterion dyrys gerbron. Mae hyn yn cynnwys:

- Adolygiad o Ddarpariaeth Ymateb Brys ar raddfa eang ledled Gogledd Cymru. Fel a ddisgrifiwyd uchod, mae'r gyfran uchel o alwadau diangen y mae'r Awdurdod yn ymateb iddynt yn effeithio'n sylweddol ar gapasiti. Yng nghyd-destun disgwyliadau cynyddol ac adnoddau lleihaol, mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn meintioli effaith galwadau diangen yn gywir i gefnogi arfarniadau o'r opsiynau yn y dyfodol.
- sylfaen asedau'r Awdurdod, gan gynnwys nifer y gorsafoedd tân a'u lleoliad. Mae cysylltiad annatod rhwng hyn a'r adolygiad o ddarpariaeth ar gyfer ymateb i danau ar draws y rhanbarth, ac mae'n adlewyrchu adolygiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol o gydnerthedd corfforaethol yr Awdurdod. Amlygodd ein hadroddiad nad yw ei orsafoedd tân wastad wedi'u lleoli yn y lle gorau i gynnal cydnerthedd y gwasanaeth gyda'r rôl newidiol a'r disgwyliadau a osodir ar wasanaethau tân ac achub.[21]
- anawsterau recriwtio a chadw sy'n effeithio ar argaeledd staff ar alwad, yng nghyd-destun model darparu sydd â phwyslais trwm ar ddiffoddwyr tân sydd ar ddyletswydd yn ôl y galw. Ataliwyd gweithgarwch recriwtio yn ystod y pandemig, ac ar ôl hynny mae'r Awdurdod wedi ei chael yn anodd cyrraedd ei dargedau recriwtio ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad. Amlygodd swyddogion fod lleihau nifer y galwadau diangen yr ymatebir iddynt yn gallu cael ei ystyried yn rhwystr yn hyn o beth, gan bod llawer o'r arbedion ariannol posibl yn uniongyrchol gysylltiedig â ffioedd galwadau allan. Eto, mae hyn yn amlygu pwysigrwydd meintioli capasiti staff yn gywir, i oleuo penderfyniadau strategol ynglŷn ag "adleoli adnoddau dynol ac eraill... i gyflawni tasgau mwy cynhyrchiol".[22]
- buddsoddiad mewn cyfleusterau hyfforddi newydd. Mae angen buddsoddiad sylweddol i ddatblygu canolfan hyfforddi newydd yng Ngogledd Cymru i gefnogi cymhwysedd diffoddwyr tân. Mae galwadau diangen yn effeithio ar gapasiti diffoddwyr tân i fynychu digwyddiadau hyfforddi a datblygu ac mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun ei fuddsoddiad mewn cyfleusterau newydd.
- strwythur llywodraethu newydd a diwylliant esblygol y sefydliad. Yn ddiweddar mae'r Awdurdod wedi sefydlu strwythur llywodraethu newydd o

[21] Cydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Archwilio Cymru, Mai 2021

[22] Nodir y disgwyliad hwn yn Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016 gan Lywodraeth Cymru

fewn y cnewyllyn o swyddogion, gyda golwg ar wella ffocws ar berfformiad a helpu i ddatganoli prosesau penderfynu a chraffu ar berfformiad ar bob lefel briodol.

54 Mae hon yn agenda sy'n gryn her, a hithau wedi'i gosod yn erbyn cefnlen o ddiffygion yn y gyllideb yn awr ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, er bod gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â galwadau diangen wedi cael ei chyflwyno iddynt, ni chanfu ein hadolygiad ni o gofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod llawn a'r Pwyllgor Archwilio dros y ddwy flynedd ddiwethaf ryw lawer o dystiolaeth bod Aelodau wedi bod wrthi'n ceisio herio perfformiad mewn perthynas â galwadau diangen i helpu i gefnogi gwelliant ariannol a gweithredol.

55 Caiff cydnerthedd cyfyngedig yr Awdurdod yng nghyd-destun galwadau diangen ei enghreifftio gan ei ddull o ymdrin â diogelwch tân i fusnesau. Er bod ganddo ddull da o leihau nifer y galwadau a ysgogwyd gan larymau tân awtomatig y mae'n ymateb iddynt, mae'n anorfod bod ei benderfyniad i beidio ag ymateb i gyfran fawr o alwadau diangen yn cynyddu'r pwyslais ar drefn lle mae cydweithwyr diogelwch tân yn ymateb mewn ffordd wahanol, er enghraifft trwy adnabod patrymau o ddigwyddiadau ac archwilio gweithdrefnau diogelwch tân mewn modd rhagweithiol, neu gymryd camau dilynol trwy waith cydweithwyr ym maes addysg i fusnesau. Mae paragraff 48 o'r adroddiad hwn yn amlygu cyfleoedd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng data ar alwadau a ysgogir gan larymau tân awtomatig a llwythi gwaith cydweithwyr ym maes diogelwch tân i fusnesau. Fodd bynnag, canfuom fod rhwystrau i wneud hyn, yn anad dim y cyfle cyfyngedig i gynyddu llwythi gwaith o fewn y strwythur cyfredol, gyda thimau eisoes yn gweithio hyd eithaf eu capasiti.

# Atodiad 1

## Ymagwedd archwilio a'r fethodoleg

### Ymagwedd archwilio

Roedd ein hymagwedd yn ymwneud â deall dull yr Awdurdod o leihau galwadau tân diangen, gan ganolbwyntio'n arbennig ar leoliadau annomestig. Roedd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn 'A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall ei wneud i leihau nifer y galwadau tân diangen annomestig a'i ymatebion iddynt?'. Roedd ein ffocws ar gamau gweithredu'r Awdurdod, nid y camau gweithredu sydd ar gael i reolwyr adeiladau neu bobl gyfrifol.

Fe gwblhaom ni ein gwaith maes ar draws pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub ar wahân, gan ddefnyddio'r un tîm ar draws y tri. Fe wnaeth hyn ein galluogi i gael mewnwelediad i bob Awdurdod, yn ogystal â goleuo allbwn cenedlaethol sydd ar ddod.

Fe geisiom ni fod yn hyblyg i gyd-fynd ag amserlenni swyddogion wrth drefnu a gwneud ein gwaith maes, gan sicrhau nad oedd ein gwaith yn tynnu oddi wrth waith gweithredol yr Awdurdod.

### Methodoleg

Cwblhawyd ein hadolygiad rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023. Fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau i ddod i gasgliadau ar gyfer ein hadolygiad:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu polisïau a dogfennaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod, yn ogystal ag adolygu gwybodaeth a gyhoeddwyd ganddo, fel ei wefan. Hefyd, fe wnaethom adolygu dogfennaeth gan Lywodraeth Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a grwpiau cynrychiolaidd.
- dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data a ddarparwyd gan yr Awdurdod a data a oedd ar gael yn gyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys data rheoli, data System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a data arall a oedd ar gael o StatsCymru.
- cyfweliadau lleol – fe gyfwelom ni â swyddogion a enwebwyd gan yr Awdurdod a oedd yn cwmpasu ystod o wahanol feysydd, yn gorfforaethol ac yn lleol. Roedd hyn yn cynnwys y swyddog arweiniol ar gyfer galwadau diangen, swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau ac uwch swyddogion.
- cyfweliadau cenedlaethol – fe gyfwelom ni â chynrychiolwyr byrddau iechyd lleol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân.
- arolwg – fe ddyluniom ni arolwg ar gyfer rheolwyr adeiladau a phobl gyfrifol i gasglu eu barn ynglŷn â galwadau diangen a'r Awdurdod. Fe wnaethom annog yr Awdurdod i anfon hwn at sefydliadau yn ei ardal, yn ogystal â'i hyrwyddo trwy rwydweithiau proffesiynol, megis grŵp Rheolwyr Ystadau'r GIG. Yn anffodus, cafwyd rhy ychydig o ymatebion i allu defnyddio'r dystiolaeth hon i ddod i gasgliadau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i’r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **19 Mehefin 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Rheoli Risg Strategol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Crynhoi cynnwys cofrestr risg strategol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol â'r Polisi Rheoli Risg Strategol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae cynlluniau adrannol a chofrestrau risg ar gyfer 2023-2024 wedi'u hadolygu gyda Phenaethiaid Adrannau, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni eu hamcanion ar ôl lliniaru.

3. Mae'r risgiau hyn wedi'u sgorio o 1-25, ac maent wedi'u categoreiddio fel Uchel Iawn, Uchel, Canolig ac Isel ac wedi'u rhoi mewn rhestr o 74 o risgiau adrannol.

4. Er mwyn coladu'r Gofrestr Risg Strategol, mae'r 74 o risgiau adrannol wedi'u grwpio i 8 thema yn Ffig1 sy'n adlewyrchu'r sgôr adrannol er mwyn nodi'r risg gynyddol i'r sefydliad.

5. Y meysydd sy’n peri’r risg uchaf i'r sefydliad yw seiberymosodiadau, heriau ariannol, effaith newid yn yr hinsawdd, recriwtio a chadw digon o staff i gynnal ymateb effeithiol ac effeithlon ac unrhyw darfu ar y systemau TG a ddefnyddir gan bob adran.

**Argymhellion**

6. Dylai’r aelodau:
   i) nodi'r risgiau strategol a nodwyd sy'n wynebu'r Awdurdod.

**CEFNDIR**

7. Mae Polisi Rheoli Risg Strategol mabwysiedig yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai, pe bai'n digwydd, yn effeithio ar y gwaith o gyflawni canlyniadau arfaethedig yr Awdurdod a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

8. Mae Cofrestr Risg Strategol yr Awdurdod yn rhestru risgiau hysbys a allai o bosibl atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Priodolir sgorau risg i gofnodion cofrestrau a chânt eu hail-werthuso'n rheolaidd gan swyddogion i adlewyrchu'r cyflwr presennol ac effaith ragfynegedig y gwrthfesurau arfaethedig.

9. O dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn derbyn adroddiad cryno ar risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng yr adegau hynny, gall Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod weld manylion llawn y gofrestr gyda Swyddogion.

10. Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi lefelau risg presennol a lefelau risg yn y dyfodol, yn seiliedig ar dybiaeth y bydd gwrthfesurau a gynlluniwyd wedi cael yr effaith a ddymunir.

11. Mae lefelau risg yn seiliedig ar werthusiad o'r tebygolrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd a'r canlyniadau pe bai'n digwydd. Darperir y disgrifiadau er gwybodaeth yn Atodiad A.

**GWYBODAETH**

12. Mae swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risg, gan ychwanegu, dileu ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Gwneir hyn o leiaf yn ystod pob diweddariad chwarterol i gynlluniau adrannol a chofrestrau risg.

13. Darperir crynodeb o'r cofnodion cofrestr presennol yn Atodiad 1.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnal y gofrestr a gweithredu i reoli risg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i flaenoriaethu penderfyniadau o ran gwario a fyddai'n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r gyfraith sy'n diffinio ei swyddogaethau a sut mae'n gweithredu. |
| Staffio | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Gallai rhyddhau'r gofrestr yn ddamweiniol roi'r Awdurdod mewn perygl o niwed. |

**Atodiad 1**

**Cofrestr Risg Strategol**

1. Mae cyfanswm o 74 o risgiau wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Adrannol a chofrestrau risg ar gyfer 2023-24 sydd wedi'u rhannu yn 8 thema sy'n ffurfio'r sail ar gyfer nodi eu risg gyffredinol i'r sefydliad:

   Risgiau o Gynlluniau Adrannol a chofrestrau risg ar gyfer 2023-2024 wedi'u grwpio'n Themâu Strategol

| Cyf Risg Strategol | Risg | Uchel iawn 20-25 | Uchel 12-16 | Canolig Uchel 8-10 | Canolig Isel 4-6 | Isel 1-3 | Cyfanswm o gynlluniau adran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymosodiad Seiber | 1 | 3 | | | | 4 |
| 2 | Ariannol | | 4 | 12 | 1 | | 17 |
| 3 | Hinsawdd | | 1 | | | | 1 |
| 4 | Cyfreithiol | | | 5 | 2 | | 7 |
| 5 | Enw Da | | | 5 | 1 | | 6 |
| 6 | Ymateb | | | 1 | 6 | | 7 |
| 7 | Adnodd Staffio | | 4 | 13 | 7 | | 24 |
| 8 | Cadwyn Gyflenwi | | | 2 | | | 2 |
| 9 | Systemau TG | | 1 | 2 | 4 | | 6 |
| Cyfansymiau | | 1 | 13 | 39 | 21 | 0 | 74 |

2. Mae manylion y Risgiau Uchel ac Uchel Iawn a'u gwrthfesurau fel a ganlyn:

   i. Dim ond un risg gyffredinol sy'n sgorio fel Uchel Iawn, ac mae hyn yn ymwneud â seiberddiogelwch. Gyda gwaith rhagweithiol yn parhau i leihau'r tebygolrwydd, gallai'r lefel leihau i Uchel pan fydd achrediad Cyber Essential wedi'i gyflawni.

| Risg Uchel Iawn | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Ymosodiad seiber a thoriadau data yn ymwneud ar Wybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg | • Monitro bygythiadau byd-eang yn barhaus ac adolygu amddiffynfeydd seiberddiogelwch.<br>• Cynnydd tuag at gyflawni achrediad CE (Cyber Essential) a CE+ (Cyber Essentials Plus).<br>• Ymdrechu i ddenu personél sydd â set sgiliau angenrheidiol i'n cefnogi i gydymffurfio ag arfer gorau.<br>• Gwneud gwaith cynnal a chadw i atal, ac adolygu technolegau cydnerth.<br>• Polisïau mewn lle ar gyfer Gweithio Ystwyth, Diogelwch Systemau a Data. |

ii. Mae'r 13 Risg Uchel a nodwyd gan Adrannau mewn perthynas â chyflawni eu hamcanion wedi'u grwpio o fewn y 4 thema Risg Strategol isod ac maent yn debygol o aros yn Uchel, er gwaethaf y gwrthfesurau isod.

| Risg Strategol | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Effaith newid hinsawdd, gan gynnwys galw ar adnoddau a heriau amgylcheddol yn ymwneud ag ystadau a cherbydau. | • Strwythur llywodraethu ar waith i fonitro ac adrodd.<br>• Strategaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar waith.<br>• Datblygu ein staff a darparu cyfleusterau/cyfleoedd hyfforddi, i'w galluogi i ymateb yn ddiogel ac yn effeithiol i argyfyngau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. |
| Heriau ariannol sy'n codi o gronfeydd annigonol i ddarparu gwasanaethau craidd neu i gynnal systemau sy'n hanfodol i risg.<br>Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau Pensiwn yn dilyn dyfarniadau diweddar ac effaith newidiadau ar ôl diddymu cyfraith yr UE. | • Mae'r gyllideb eisoes wedi'i dyrannu yn y rhaglen Gyfalaf gyda'r holl amrywiadau i'w cymeradwyo gan y SPOC.<br>• Penodi arweinydd technegol Cymru Gyfan ar gyfer Pensiynau i gefnogi'r Uwch Swyddog Pensiynau â'r gwaith o brosesu'r newidiadau sy'n deillio o'r newid yn y ddeddfwriaeth pensiynau gyda phroses archwilio ar waith.<br>• Parhau i gydweithio ar waith partneriaeth gydag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.<br>• Parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, yn enwedig ynghylch cyllid grant.<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.<br>• Monitro newidiadau i gyfraith cyflogaeth a allai effeithio ar bwysau cyllideb cynyddol ar ôl dirymu cyfraith yr UE. |
| Cynnal darpariaeth gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru gyfan, gan ystyried yr heriau penodol o recriwtio a chadw mewn ardaloedd gwledig a chynnal sgiliau trwy ddarparu gweithgareddau hyfforddi a datblygu effeithiol. | • Datblygu a gweithredu safonau ymateb gwell, effeithiol ac effeithlon drwy'r Prosiect Adolygu Ymateb Brys.<br>• Recriwtio'n rhagweithiol mewn gorsafoedd gwledig gydag ymdrechion parhaus i recriwtio'r staff cywir yn y lle cywir i ddarparu gwasanaeth ar yr adeg gywir.<br>• Blaenoriaethu llwyth gwaith ac uwchsgilio /hyfforddi staff.<br>• Mentora a hyfforddi staff lle bo hynny'n bosibl i wella cydnerthedd.<br>• Gweithio i leihau pwyntiau llwyddiant unigol a seilos gwybodaeth gan gynnwys parhau i recriwtio i swyddi gwag.<br>• Adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith cynllunio ar gyfer gweithredu diwydiannol yn 2022/23. |

| | |
|---|---|
| | • Sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan gwmpasu colli staff ym mhob adran.<br>• Adolygu'r ddarpariaeth o hyfforddiant a datblygiad gweithredol, gan gynhyrchu argymhellion ar gyfer gwella.<br>• Monitro newidiadau i gyfraith cyflogaeth a allai effeithio ar bwysau cyllideb cynyddol ar ôl dirymu cyfraith yr UE. |
| Tarfu ar neu golli systemau TG sydd wedi'u teilwra i adrannau a/neu'r gwasanaeth ehangach. | • Gweithio i sicrhau bod contractau newydd gyda chyflenwyr addas er mwyn cynnal systemau a mudo i opsiynau amgen.<br>• Sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn ddigonol.<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. |

**Atodiad 2**

## Dadansoddiad risg

| TEBYGOLRWYDD | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Yn debygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Yn bosibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Ansylweddol | 2 Bychan | 3 Cymedrol | 4 Sylweddol | 5 Uchel |
| | | CANLYNIAD | | | | |

## Graddfa flaenoriaeth risg

| Gwerth | Graddfa flaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn – risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel – risg yn sylweddol |
| 8-10 | Canolig uchel – risg yn gymedrol |
| 4-6 | Canolig isel – risg yn oddefadwy |
| 1-3 | Isel |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **19 Mehefin 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Yr Amgylchedd)** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Yn dilyn trafodaeth gydag Aelodau mewn tri chyfarfod o'r gweithgor Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, mae Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod 2023-2030 bellach wedi'i datblygu. Mae'n atgyfnerthu ein hymrwymiadau cyfreithiol a pholisi presennol sy'n ymwneud â rheoli amgylcheddol, ac yn nodi sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

## ARGYMHELLIAD

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys yr adroddiad; ac yn

ii) cymeradwyo'r Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2023-2030 i'w chymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod Llawn ar 17 Gorffennaf.

## CEFNDIR

3 Mae Tri Gweithgor ar gyfer Aelodau'r Awdurdod Tân bellach wedi digwydd; ar 14 Mawrth, 4 Ebrill a 2 Mai 2023. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, rhoddodd Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd gyflwyniad i'r Aelodau ar y cysyniad o Strategaeth Amgylcheddol, gan amlinellu argymhellion ar gyfer yr hyn ddylid ei gynnwys. Yn olaf, cyflwynwyd testun drafft i dderbyn eu sylwadau arno a'i adolygu.

4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau mewn sawl ffordd. Daw'r dyletswyddau perthnasol i baratoi strategaeth amgylcheddol i'r Gwasanaeth o dan y pennawd 'Cymru Gydnerth':

1) **Bioamrywiaeth a Phridd** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau sy'n gweithredu'n iach

2) **Lle Gwyrdd Naturiol** Cefnogi cydnerthedd cymdeithasol a lles cymunedol

3) **Gwybodaeth am Natur** Cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach

4) **Ansawdd Dŵr ac Aer** Cefnogi cydnerthedd ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwyllt a phobl

5 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru i sero-net erbyn y flwyddyn 2050.

6 Yn unol â'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi cyfres o gyllidebau carbon dros dro, gan gynnwys o dan Gyllideb Garbon 3 (CB3), uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon sero-net erbyn 2030.

7 Mae'r Gwasanaeth wedi llofnodi Siarter Cynaliadwyedd Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Gwasanaethau Brys (ESESG), sy'n nodi'r ymrwymiadau perthnasol canlynol:

1) Gweithio tuag at allyriadau carbon sero-net drwy wella effeithlonrwydd ynni ein hystâd a theithio busnes a phersonol cynaliadwy.
2) Gwella effeithlonrwydd adnoddau a mabwysiadu dulliau economi gylchol o leihau gwastraff ac arbed arian.
3) Adfer a gwella bioamrywiaeth leol drwy reoli ein hystadau mewn modd ystyriol.
4) Addasu i'r newid anochel yn yr hinsawdd drwy reoli ein gallu yn rhagweithiol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol a newidiadau i'r galw am wasanaethau.
5) Cymryd camau i osgoi neu liniaru llygredd cyrsiau dŵr.
6) Lleihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil drwy fynd ati i geisio cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ein safleoedd, a thrwy fabwysiadu technolegau a thanwydd gwyrddach ar gyfer ein fflyd.

## GWYBODAETH

8 Fel Gwasanaeth Tân ac Achub, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod a chadw ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein gweithredoedd yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd ac mae gennym ddyletswydd i leihau ein hôl troed amgylcheddol a hyrwyddo cynaliadwyedd ym mhob rhan o'n gweithrediadau.

9 Bydd y Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig yn amlinellu ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu arferion cynaliadwy yn ein gweithrediadau pob dydd, lleihau ein hallyriadau carbon, a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymysg ein staff ac aelodau o'r gymuned.

10 Bydd y Strategaeth yn nodi nifer o gynlluniau manwl i'w datblygu dros y flwyddyn ariannol nesaf, gan fanylu ar fesurau ac amserlenni penodol i'w gweithredu mewn nifer o feysydd, gan gynnwys caffael, fflyd, ac ystâd ein gorsafoedd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiad uniongyrchol i gytuno ar y camau tuag at gyflawni un o amcanion gwelliant a llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| **Cyllideb** | Mae gan y Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig oblygiadau ar gyfer cyllidebau cyfalaf a gweithredol yn ystod pob blwyddyn ariannol hyd at flwyddyn galendr 2030. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â chynlluniau gwelliant, deddfwriaeth llesiant a'r amgylchedd. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| **Risgiau** | Lleihau risgiau diffyg cydymffurfio cyfreithiol a methu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority

# Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030

Mai 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

**Awdur(on):**
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd

Paratowyd gan:
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

## Cynnwys

*Tudalen*

1.0 Cyflwyniad ..... 1
2.0 Cyd-destun polisi ..... 2
2.1 Deddfwriaeth ..... 2
2.2 Targedau Cenedlaethol ..... 2
3.0 Mesur Cynnydd ..... 4
3.1 Trosolwg ..... 4
3.2 Targedau ..... 4
4.0 Cynaliadwyedd yn y Gymuned ..... 5
4.1 Trosolwg ..... 5
4.2 Targedau ..... 5
5.0 Caffael Cynaliadwy ..... 6
5.1 Trosolwg ..... 6
5.2 Targedau ..... 6
6.0 Y Defnydd o Ynni ..... 7
6.1 Trosolwg ..... 7
6.2 Targedau ..... 7
7.0 Y Defnydd o Ddŵr ..... 8
7.1 Trosolwg ..... 8
7.2 Targedau ..... 8
8.0 Gweithgareddau Gweithredol ..... 9
8.1 Trosolwg ..... 9
8.2 Targedau ..... 9
9.0 Gwastraff ac Ailgylchu ..... 10
9.1 Trosolwg ..... 10
9.2 Targedau ..... 10
10.0 Fflyd ..... 11
10.1 Trosolwg ..... 11
10.2 Targedau ..... 11
11.0 Bioamrywiaeth ..... 12
11.1 Trosolwg ..... 12
11.2 Targedau ..... 12

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.0.1 Fel Gwasanaeth Tân ac Achub, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod a chadw ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn deall bod ein gweithredoedd yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd ac wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed amgylcheddol a hyrwyddo cynaliadwyedd ym mhob rhan o'n gweithrediadau.

1.0.2 Bydd y Strategaeth Amgylcheddol hon yn amlinellu ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu arferion cynaliadwy yn ein gweithrediadau bob dydd, lleihau ein hallyriadau carbon, a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymysg ein staff ac aelodau o'r gymuned.

1.0.3 Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad cyfrifol a chynaliadwy, ac rydym yn addo adolygu a gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus. Paratowyd y strategaeth hon er mwyn darparu llwybr clir i'r Gwasanaeth gyflawni ei rwymedigaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd ar gyfer y cyfnod hyd at flwyddyn galendr 2030, gan nodi polisïau a meincnodau clir y gellir mesur ein cynnydd yn eu herbyn.

1.0.4 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau amddiffyn ac atal tân i tua 687,000 o bobl dros ardal ddaearyddol o 2,400 milltir sgwâr, yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn. Mae tua 328,742 eiddo domestig a 33,820 eiddo annomestig o dan warchodaeth GTAGC ac mae'r Gwasanaeth yn cyflogi bron i 1,000 o staff mewn rolau gweithredol a chymorth.

1.0.5 Mae'r Gwasanaeth yn gofalu am dair ardal ddaearyddol, Gwynedd a Môn (y Gorllewin), Conwy a Sir Ddinbych (y Canol), Wrecsam a Sir y Fflint (y Dwyrain), gydag ystâd o 47 o adeiladau, yn amrywio o orsafoedd tân amser cyflawn, criw dydd, rhan amser a chymunedol, i swyddfeydd gweinyddol, gweithdy garej ac adeiladau a rennir gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Yn fras, bydd GTAGC yn mynd at 1,879 o danau, 958 o Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig, a 2,517 o alwadau diangen o wahanol fathau bob blwyddyn.

## 2.0 CYD-DESTUN POLISI

### 2.1 Deddfwriaeth

2.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau mewn sawl ffordd. Daw'r dyletswyddau perthnasol i baratoi strategaeth amgylcheddol i'r Gwasanaeth o dan y pennawd 'Cymru Gydnerth':

1) **Bioamrywiaeth a Phridd** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau sy'n gweithredu'n iach
2) **Lle Gwyrdd Naturiol** Cefnogi cydnerthedd cymdeithasol a lles cymunedol
3) **Gwybodaeth am Natur** Cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach
4) **Ansawdd Dŵr ac Aer** Cefnogi cydnerthedd ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwyllt a phobl

2.1.2 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru i sero net erbyn y flwyddyn 2050.

2.1.3 Yn unol â'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi cyfres o gyllidebau carbon dros dro, gan gynnwys o dan Gyllideb Garbon 3 (CB3), uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Mae hyn yn rhwymo Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, nid cyrff cyhoeddus penodol.

2.1.4 Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth i adrodd ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ei ystâd bob tair blynedd o ddiwedd 2019.

2.1.5 Mae'r Gwasanaeth wedi llofnodi Siarter Cynaliadwyedd Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Gwasanaethau Brys (ESESG), sy'n nodi'r ymrwymiadau perthnasol canlynol:

1) Gweithio tuag at allyriadau carbon sero-net drwy wella effeithlonrwydd ynni ein hystâd a theithio busnes a phersonol cynaliadwy.
2) Gwella effeithlonrwydd adnoddau a mabwysiadu dulliau economi gylchol o leihau gwastraff ac arbed arian.
3) Adfer a gwella bioamrywiaeth leol drwy reoli ein hystadau mewn modd ystyriol.
4) Addasu i'r newid anochel yn yr hinsawdd drwy reoli ein gallu yn rhagweithiol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol a newidiadau i'r galw am wasanaethau.
5) Cymryd camau i osgoi neu liniaru llygredd cyrsiau dŵr.
6) Lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil drwy fynd ati i geisio cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ein safleoedd, a thrwy fabwysiadu technolegau a thanwydd gwyrddach ar gyfer ein fflyd.

### 2.2 Targedau Cenedlaethol

2.2.1 Fel Sefydliad Sector Cyhoeddus, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o dargedau gwella amgylcheddol lleol a chenedlaethol a'u hystyried.

2.2.2 Mae targedau amgylcheddol wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru o fewn strategaethau allweddol gan gynnwys 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' a 'Tuag at Wastraff Sero Net'. Dyma'r targedau amlinellol ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr a gwastraff i safleoedd tirlenwi sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector Cyhoeddus a Phreifat fesur a lleihau'r allyriadau hyn o flwyddyn i flwyddyn.

2.2.3 Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at fod y Genedl Ail-lenwi gyntaf gyda'r nod o leihau poteli plastig untro.

2.2.4 Yn 2018, cyhoeddodd DEFRA ei Gynllun Amgylcheddol 25 mlynedd sy'n amlinellu targedau mewn perthynas ag aer glân, dŵr, bioamrywiaeth, defnydd cynaliadwy o adnoddau, lleihau gwastraff, bioddiogelwch a gwella'r amgylchedd naturiol.

# 3.0 MESUR CYNNYDD

## 3.1 Trosolwg

3.1.1 Mae mesur cynnydd wrth wraidd ein strategaeth amgylcheddol. Mae'n caniatáu i'r Gwasanaeth olrhain cynnydd tuag at ein targedau penodedig a nodi meysydd lle gallwn wella.

3.1.2 Yn Adran 3.2.1 (isod), rydym yn amlinellu sut y byddwn yn datblygu'r dangosyddion allweddol y bydd y Gwasanaeth yn eu defnyddio i fesur ei gynnydd o ran lleihau ei effaith amgylcheddol. Bydd y dangosyddion hyn yn canolbwyntio ar feysydd fel defnyddio ynni, lleihau gwastraff ac allyriadau carbon, a byddant yn cael eu defnyddio i osod targedau ac olrhain cynnydd dros amser.

3.1.3 Trwy fonitro ac adrodd yn rheolaidd ar y dangosyddion hyn, bydd y Gwasanaeth yn gallu sicrhau ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion amgylcheddol a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.

## 3.2 Targedau

3.2.1 Byddwn yn mesur ein cynnydd drwy:

- Sefydlu gwaelodlin allyriadau carbon, y gallwn fesur ein cynnydd yn ei herbyn wrth leihau ein hôl troed carbon
- Dilyn y Targedau a nodir yn y Strategaeth hon – gyda chynnydd yn cael ei adrodd mewn cynlluniau gwella adrannol / corfforaethol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Weithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Mabwysiadu System Rheoli Amgylcheddol i safon gydnabyddedig (fel ISO:14001 neu'r Ddraig Werdd)
- Paratoi dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol amgylcheddol misol
- Cyflwyno diweddariad amgylcheddol chwarterol i'r Pwyllgor Tir ac Eiddo
- Cyflwyno archwiliadau allyriadau carbon blynyddol i Lywodraeth Cymru
- Paratoi Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth bob tair blynedd

# 4.0 CYNALIADWYEDD YN Y GYMUNED

## 4.1 Trosolwg

4.1.1 Fel corff cyhoeddus, rydym yn ymdrechu i gael presenoldeb cadarnhaol yn y gymuned rydym yn ei gwasanaethu ac yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan lle bo hynny'n bosibl. Drwy gydol y flwyddyn, mae gorsafoedd tân yn cynnal eu Diwrnodau Agored eu hunain ar gyfer eu cymuned leol, yn cynnal ymweliadau ag ysgolion ac yn agor eu drysau i grwpiau prosiectau cymunedol.

4.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn gwneud gwaith cynhwysfawr gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch ac atal tân. Mae'r potensial am niwed difrifol i'n hamgylchedd, yn aml mewn ardaloedd sensitif, yn sgil effaith tanau cefn gwlad yn bryder difrifol. Mae effaith cynnau tân bwriadol yn tanseilio hyder cymdeithasol ac economaidd ac yn tynnu ar adnoddau y gellid eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn mannau eraill.

4.1.3 Mae lleihau tanau bwriadol yn helpu i ddiogelu a chynnal ansawdd a hyfywedd parhaus yr amgylchedd a'r mannau lle'r ydym yn byw, gweithio, dysgu a threulio ein hamser hamdden.

4.1.4 Mae'n bwysig addysgu a chodi ymwybyddiaeth am effaith tanau bwriadol ar yr amgylchedd. Dylem annog cynaliadwyedd ac addysg amgylcheddol wrth ymweld ag ysgolion mewn ymgais i dynnu sylw at faint o danau bwriadol sy'n cael eu cynnau yn y gymuned.

## 4.2 Targedau

4.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Hyrwyddo diogelwch cymunedol i atal tanau a digwyddiadau eraill rhag digwydd
- Cyflawni amcanion Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru
- Cyflawni'r amcanion a nodir yn ein Hadroddiad Bioamrywiaeth a'n Cynlluniau Gweithredu tair blynedd
- Creu a datblygu partneriaethau rhyngasiantaethol yn unol â Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Ymgysylltu ag ysgolion a cholegau o fewn ardal y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth am beryglon tân

# 5.0 CAFFAEL CYNALIADWY

## 5.1 Trosolwg

5.1.1 Caffael cynaliadwy yw'r broses o gaffael nwyddau a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n elfen allweddol o gyfrifoldeb cymdeithasol a stiwardiaeth amgylcheddol.

5.1.2 Fel gwasanaeth cyhoeddus cyfrifol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd caffael cynaliadwy ac rydym wedi ymrwymo i weithredu polisi cynhwysfawr sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Ein nod yw lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau, cefnogi'r cymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu, a hyrwyddo arferion llafur teg.

5.1.3 Drwy gydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill a sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, ein nod yw gwella ein perfformiad ym maes caffael cynaliadwy, gyda'r nod o weithredu safonau arfer gorau ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.

5.1.4 Rydym yn ymdrechu i gydweithio a meincnodi cynnydd yn erbyn gwasanaethau brys eraill a sefydliadau sector cyhoeddus eraill er mwyn mesur ein perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus. Caiff yr holl weithgarwch caffael dros y lefelau y cytunwyd arnynt ei wneud gan Heddlu Gogledd Cymru ar ran y Gwasanaeth.

5.1.5 Fel gwasanaeth, rydym yn sicrhau bod cyflenwadau, gwasanaethau a gwaith yn cael eu caffael nid yn unig yn ôl rheoliadau'r sector cyhoeddus, ond hefyd mewn ffordd sy'n caniatáu i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) ddatblygu. Mae hon yn elfen allweddol o'n rhwymedigaeth Gwerth Cymdeithasol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Fel corff cyhoeddus, rydym yn ceisio gwneud ein proses gaffael yn fwy cynaliadwy ac felly ymrwymo i Raglen Caffael Cynaliadwy Sector Cyhoeddus Gwerth Cymru.

## 5.2 Targedau

5.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Gweithio gyda WRAP Cymru a/neu gynlluniau tebyg, i gael cipolwg arbenigol ar sut y gallwn gyflawni cynaliadwyedd yn ein proses gaffael.
- Paratoi a gweithredu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy sy'n adlewyrchu'r arferion gorau yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod fframweithiau a chontractau caffael yn mesur gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn ystod y broses dendro. Hefyd, bydd yn amlinellu ein dull o ddod o hyd i nwyddau a gwasanaethau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, yn gymdeithasol gyfrifol ac yn hyfyw yn economaidd.
- Archwilio opsiynau ar gyfer caffael lleol i gael eu darparu drwy gydweithrediad cenedlaethol/rhanbarthol yn y sector tân ac achub ac ar draws asiantaethau golau glas eraill.
- Parhau i weithio gyda Fire Aid i sicrhau bod offer yn cael ei ailgylchu lle bo hynny'n bosibl.
- Datblygu pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth caffael, gan ymgorffori egwyddorion craidd gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd ar bob lefel o'r Gwasanaeth.

## 6.0 Y DEFNYDD O YNNI

### 6.1 Trosolwg

6.1.1 Fel Gwasanaeth Tân ac Achub rydym yn cydnabod pwysigrwydd lleihau ein defnydd o ynni ar draws ein hystâd. Rydym yn gwella ein system yn barhaus ar gyfer monitro defnydd ac yn rhoi mentrau arbed ynni ar waith lle bo hynny'n bosibl i leihau ein hôl troed carbon.

6.1.2 Caiff ein hadeiladau eu cynhesu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau tanwydd hydrocarbon, sy'n gynhenid anghynaliadwy ac fe fyddwn yn ceisio eu dileu.

6.1.3 Rydym yn chwilio'n barhaus am y tariffau ynni mwyaf effeithlon a gwyrdd ac ar hyn o bryd mae gennym nifer fach o safleoedd sydd â phaneli ffotofoltäig (PV) solar wedi'u gosod, gyda'r bwriad o gynyddu hyn dros gyfnod y cynllun a chynyddu faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu ar draws ein hystâd lle bynnag y bo modd.

### 6.2 Targedau

6.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Gweithio gyda Re:fit Cymru a/neu gynlluniau tebyg, er mwyn galluogi ôl-ffitio effeithlonrwydd ynni i'n hystâd mewn modd niwtral yn ariannol lle bo hynny'n bosibl.
- Ymgysylltu â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i barhau i fod yn wybodus am y datblygiadau o ran polisi, technoleg a chyfleoedd cyllido posibl.
- Monitro'n barhaus y defnydd o ynni ac effeithlonrwydd ynni cymharol ein hadeiladau er mwyn nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Paratoi a gweithredu Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi, gan nodi'r ffordd yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'n hallyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o wresogi ein hystâd o fewn cyfnod y strategaeth hon.
- Paratoi a gweithredu Cynllun Datgarboneiddio Pŵer, gan nodi'r modd rydym yn bwriadu lleihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o'n defnydd o drydan.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â'n staff a defnyddwyr adeiladu eraill i addysgu ac annog defnydd effeithlon o ynni ac ymddygiadau eraill sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.
- Ystyried bod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio adnoddau cyhoeddus drwy sicrhau bod ein hystâd ar gael at ddibenion cymunedol lle bo hynny'n bosibl

## 7.0 Y DEFNYDD O DDŴR

### 7.1 Trosolwg

7.1.1 Fel sefydliad sy'n dibynnu'n drwm ar ddŵr ar gyfer nifer o'n gweithgareddau, mae'n hanfodol ei ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Nid yn unig y defnydd o ddŵr mewn digwyddiadau ond hefyd dŵr a ddefnyddir ledled ein hystad.

7.1.2 Dros y blynyddoedd, rydym wedi gosod nifer o ddyfeisiau arbed dŵr yn ein hadeiladau ond byddai mwy'n gallu cael ei wneud o ran cynaeafu dŵr glaw ac ailddefnyddio dŵr llwyd.

7.1.3 Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth yr holl weithwyr i ddeall beth yw gwir gost a graddfa defnydd y gwasanaeth o ddŵr i sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy.

### 7.2 Targedau

7.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Meintioli'r defnydd o ddŵr corfforaethol ar draws ein hystâd
- Ystyried cynaeafu dŵr glaw, defnyddio dŵr llwyd a mesurau cadwraeth dŵr tebyg pryd bynnag y gwneir gwaith adnewyddu neu ailadeiladu
- Annog cadwraeth dŵr ac effeithlonrwydd dŵr ymysg staff a defnyddwyr eraill ein safleoedd a'u haddysgu am hyn
- Ymgysylltu â Dŵr Cymru i ddefnyddio dŵr gwastraff wedi'i drin at ddibenion diffodd tân lle bo hynny'n bosibl

# 8.0 GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

## 8.1 Trosolwg

8.1.1 Mae'r Gwasanaeth yn cynorthwyo'r cyhoedd yn rheolaidd i ddelio â'r canlyniadau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd fel llifogydd a thanau yn yr awyr agored.

8.1.2 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gweithredu ein Gwasanaeth mewn modd effeithiol sy'n rhoi ystyriaeth briodol i effaith ein gweithgareddau, boed hynny oherwydd ein defnydd o adnoddau naturiol, ein defnydd o gyfryngau diffodd tân fel ewyn, neu ein hymdrechion i leihau effaith y cynhyrchion gwastraff e.e. dŵr ffo neu fwg i'r amgylchedd.

8.1.3 Fel Gwasanaeth, rydym yn adolygu ein gweithdrefnau a'n hoffer gweithredol yn barhaus ac yn ymgorffori'n llawn yr egwyddor o asesu effaith amgylcheddol yn ein holl weithgareddau er mwyn ystyried yr amgylchedd ehangach yn llawn.

## 8.2 Targedau

8.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Sicrhau bod prosesau caffael ar gyfer cael offer gweithredol newydd yn cynnwys ystyried yr holl ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau / costau gwaredu 'diwedd eu hoes gyfan'
- Gweithio'n agos â phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau arferion gorau a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol
- Ymgysylltu â staff amgylcheddol awdurdodau lleol a phartneriaethau natur lleol i archwilio ychwanegu haenau bioamrywiaeth a sensitifrwydd amgylcheddol ar ein systemau Terfynell Data Symudol (MDT)

# 9.0 GWASTRAFF AC AILGYLCHU

## 9.1 Trosolwg

9.1.1 Mae gwastraff yn broblem sylweddol i sefydliad sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr. Lleihau faint o sbwriel rydym yn ei gynhyrchu yn y lle cyntaf yw un o'r cyfleoedd gorau sydd gennym i osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi. Fel corff cyhoeddus, mae angen i ni fod yn atebol am faint o wastraff rydym yn ei gynhyrchu a bydd ei leihau wrth ei ffynhonnell yn un o'n prif amcanion wrth symud ymlaen.

9.1.2 Yn 2010, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Wastraff i Gymru i osod targedau lleihau gwastraff ar gyfer gwahanol sectorau. Mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn rhoi'r manylion i addysgu sefydliadau ar sut i fod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050. Fel mae'r strategaeth hon yn ei amlinellu, ein nod yw cynyddu ailgylchu cymaint â phosibl, lleihau faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir ac anfon cyn lleied o wastraff â phosibl i safleoedd tirlenwi.

9.1.3 Fel Gwasanaeth, rydym yn gweithio tuag at dargedau lleihau blynyddol mewn perthynas â'n gwastraff ac yn adolygu ein contractau gwastraff yn rheolaidd i sicrhau bod y trefniadau gorau ar waith i'n helpu gyda'r targedau. Mae daearyddiaeth ardal y Gwasanaeth yn cynnig nifer o heriau logistaidd o ddydd i ddydd.

9.1.4 Fel Gwasanaeth sy'n cynhyrchu cryn dipyn o wastraff, rhaid i ni barhau i weithredu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i atal gwastraff a defnyddio cynhyrchion ailgylchadwy/bioddiraddadwy os ydyn ar gael. Trwy ystyried a chymhwyso'r hierarchaeth wastraff, mae'n rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff rhag cael ei greu yn y lle cyntaf. Mae hefyd yn bwysig addysgu ein staff i fod yn ymwybodol bod lleihau faint o wastraff wrth ei ffynhonnell yn llawer mwy cynaliadwy nag ailgylchu deunyddiau gwastraff. Gall hyn osgoi neu leihau cynhyrchu dŵr gwastraff yn y lle cyntaf.

## 9.2 Targedau

9.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Paratoi a gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff, a fydd yn annog ailddefnyddio deunyddiau, lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, hyrwyddo ailgylchu a phrynu cynaliadwy, a lleihau'r defnydd o blastigau untro.

## 10.0 FFLYD

### 10.1 Trosolwg

10.1.1 Mae ein fflyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i argyfyngau a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried effaith amgylcheddol ein gweithrediadau fflyd. Rydym wedi ymrwymo i leihau allyriadau ac ôl troed amgylcheddol ein fflyd, yn ogystal â hyrwyddo cludiant cynaliadwy yn ein Gwasanaeth. Ein nod yw arwain drwy esiampl a dangos ei bod yn bosibl cael cydbwysedd rhwng diogelwch a chyfrifoldeb amgylcheddol yn ein gweithrediadau.

10.1.2 Mae gennym fflyd fawr gan gynnwys 54 peiriant tân, un uned meistroli digwyddiad a 31 o gerbydau 'arbennig' – fel cerbydau pob tir a chludwyr ewyn; mae gennym hefyd dri pheiriant ag ysgol ac esgynlawr, offer pŵer cludadwy, offer codi a winsio ac offer arbenigol eraill i'n galluogi i ymateb i nifer o wahanol fathau o ddigwyddiadau.

10.1.3 Mae modd disgrifio ein fflyd o fewn tri chategori gwahanol. Mae'r fflyd goch yn cynnwys cerbydau gweithredol ac ymateb. Mae'r fflyd wen wedi'i darparu gan y Gwasanaeth yn gyfan gwbl, ac mae'r fflyd lwyd yn cynnwys cerbydau sy'n eiddo i weithwyr a ddefnyddir ar fusnes swyddogol.

10.1.4 Er mai'r prif danwydd a ddefnyddir o fewn y fflyd yw disel, mae nifer fach o gerbydau ac offer cludadwy yn defnyddio petrol di-blwm. Roedd yr allyriadau carbon Cwmpas 1 o'n gweithrediadau fflyd ym mlwyddyn ariannol 2021/22 bron gyfwerth â 614 tunnell o $CO_2$.

10.1.5 Mae cylch bywyd nodweddiadol peiriant tân gweithredol yn fwy na phymtheng mlynedd, gyda rhaglen dreigl o adnewyddu peiriannau.

### 10.2 Targedau

10.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Paratoi a gweithredu Cynllun Datgarboneiddio Fflyd, gan nodi sut rydym yn bwriadu dileu ein hallyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o gludiant
- Parhau i ddarparu cynllun prydlesu ceir aberthu cyflog i weithwyr lle bo'n ymarferol gwneud hynny, i gymell pobl i newid i Gerbydau Trydan
- Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau Beicio i'r Gwaith cymeradwy lle bo'n ymarferol i wneud hynny
- Chwilio am gyfleoedd i ehangu'r capasiti ar gyfer gwefru ceir trydan o amgylch ein hystâd
- Hyrwyddo cynllun cronfa geir a chludiant cynaliadwy ar gyfer staff a phartneriaid
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill wrth ddefnyddio unrhyw danwydd amgen i hyrwyddo gwerth gorau, effeithlonrwydd gweithredol a chydnerthedd cyflenwi

## 11.0 BIOAMRYWIAETH

### 11.1 Trosolwg

11.1.1 Mae llawer yn cydnabod bod bioamrywiaeth o dan bwysau gan amrywiaeth o ddylanwadau a bod cynefinoedd a rhywogaethau yn parhau i ddirywio. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ac yn gwella ein bioamrywiaeth i sicrhau ei bod yn parhau'n iach, yn wydn ac yn gallu addasu i newid. Mae newid hinsawdd yn debygol o gael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth dros y degawdau nesaf, gan gynnwys colli mwy o gynefinoedd a chynnydd posib mewn rhywogaethau goresgynnol.

11.1.2 Mae rhan fawr o ardal ein Gwasanaeth yn cynnwys tir gwledig, gyda rhan sylweddol ohoni o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ardaloedd hyn yn gartref i lawer iawn o fywyd gwyllt, gan gynnal amrywiaeth gyfoethog o blanhigion a ffawna sy'n cynnwys llawer o rywogaethau sy'n frodorol i Brydain a rhai sy'n unigryw i Gymru.

11.1.3 Rydym am annog a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd a'r ardaloedd cyfagos lle bo hynny'n bosibl a diogelu'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo.

11.1.4 Ein nod yw helpu i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn ardal ein Gwasanaeth drwy gydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru, grwpiau amgylcheddol lleol ac arbenigwyr a all gynghori ar y dull gorau o ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â'r ardaloedd hyn.

11.1.4 Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at warchod yr amgylcheddau pwysig hyn. Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Adfer Natur, sy'n cynnwys y strategaeth ar gyfer Natur a'r ymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y problemau roedd angen mynd i'r afael â nhw a'r amcanion ar gyfer gweithredu; Cynllun Gweithredu i gyflawni'r amcanion i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth; a strwythur llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â chyflawni camau gweithredu er budd bioamrywiaeth yng Nghymru.

### 11.2 Targedau

11.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Paratoi Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth bob tair blynedd, gan nodi gwaith a wnaed a'r cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf mewn perthynas â diogelu ecosystemau a gwella bioamrywiaeth.

This document is available in English **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **19 Mehefin 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Pwnc | **Ymgynghoriad ar Rwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran mewn Pensiynau Diffoddwyr Tân yng Nghymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y cynigion ar gyfer rhwymedi yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran.

2 Gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gyflwyno'r ymateb arfaethedig i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddarparu rhwymedi i aelodau cymwys y mae'r gwahaniaethu ar sail oedran yn effeithio arnynt.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau pensiwn sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am weithredu rhwymedi ôl-weithredol, gan roi pob aelod yn ôl yn eu cynlluniau etifeddol ar gyfer 2015-22 a chynnig dewis o fuddion cynlluniau etifeddol neu gynllun 2015 i aelodau, yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022.

4 Gellir gweld y ddogfen ymgynghori yma ac mae'n darparu'r egwyddorion a fydd yn sail i'r rheoliadau drafft sydd i'w gosod gerbron y Senedd. Rhagwelir y bydd y rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith o 1 Hydref 2023.

5 Mae'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

## SYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

6 Mae'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad wedi'i ystyried gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ac mae'r holl sylwadau wedi'u hymgorffori.

## ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi cefndir yr ymgynghoriad; a
(ii) cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad a ddisgwylir erbyn 23 Mehefin 2023.

**CEFNDIR**

8 Cyflwynodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013") ddiwygiadau cynhwysfawr i holl bensiynau'r sector cyhoeddus yn y DU. Y nod cyffredinol oedd lleihau cost y pensiynau hyn i'r pwrs cyhoeddus, drwy gyflwyno cynlluniau newydd ag oedran pensiwn arferol uwch, a darparu y câi buddion yn y cynlluniau hynny eu cyfrifo ar sail Enillion Ailbrisiedig Cyfartaledd Gyrfa (CARE) yn hytrach na'r cynllun cyflog terfynol traddodiadol. Roedd diogelwch trosiannol wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth a brofwyd wedyn i fod yn wahaniaethol ar sail oedran.

9 Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd aelodau cymwys yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'w cynlluniau etifeddol am y cyfnod rhwymedi sef 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2022. Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer gweithredu'r rhwymedi ac i rymuso awdurdodau cyfrifol.

10 Gan fod cynllun pensiwn y diffoddwyr tân wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ddrafftio'r rheoliadau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer rhwymedi.

11 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau pensiwn sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am weithredu rhwymedi ôl-weithredol, gan roi pob aelod yn ôl yn eu cynlluniau etifeddol ar gyfer 2015-22 a chynnig dewis o fuddion cynlluniau etifeddol neu gynllun 2015 i aelodau, yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022.

12 Gellir gweld y ddogfen ymgynghori yma ac mae'n darparu'r egwyddorion a fydd yn sail i'r rheoliadau drafft sydd i'w gosod gerbron y Senedd. Rhagwelir y bydd y rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith o 1 Hydref 2023.

13 Mae'r ymateb arfaethedig ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhinwedd ei rôl fel Rheolwr y Cynllun wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r trefniadau pensiwn yn hybu sefydlogrwydd hirdymor yn y gweithlu ac mae'r rhwymedi yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran. |
| Cyllideb | Bydd y gofyniad i fynd i'r afael â'r rhwymedi yn effeithio'n ariannol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod gan y bydd pensiynau ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt yn cael eu cynyddu. Ymdrinnir â'r effaith drwy brisio a phennu cyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran a chydymffurfio â rheoliadau'r cynllun. |
| Staffio | Bydd darparu'r rhwymedi yn cefnogi staff wrth iddynt gynllunio eu hymddeoliad ac yn cefnogi lles. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae'r rhwymedi yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau blaenorol. |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae darparu rhwymedi yn faes cymhleth ac nid yw'r canlyniadau ariannol yn hysbys. |

| | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | **Aelodaeth y Cynllun** | |
| **1** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig, lle roedd gan aelod â hawl gontractau cyflogaeth lluosog â'r un cyflogwr yn ystod cyfnod y rhwymedi, y dylai'r rhwymedi fod yn berthnasol i'r holl gontractau hynny, ni waeth pryd yr ymrwymwyd iddynt? | Mae'n ymddangos bod hwn yn gynnig teg – bod "gwasanaeth rhwymediadwy" pob aelod yn gymwys i gael ei roi yn ôl mewn cynlluniau etifeddol. Mae'n adlewyrchu bod y cyflogai yn gymwys ar gyfer rhwymedi ar y dyddiad perthnasol ac mae'n cydnabod y cysylltiad rhwng y contractau cyflogaeth (h.y. maent i gyd yn llifo o waith diffoddwr tân) |
| **2** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai fod gan bob aelod yr effeithir arno a optiodd allan o fod yn aelod o Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi yr hawl i optio i mewn i'w cynlluniau etifeddol yn ôl weithredol eto, heb orfod dangos pam y gwnaeth optio allan yn wreiddiol? | Mae'r egwyddor y dylai aelod a fyddai wedi bod yn gymwys i gael rhwymedi pe na bai wedi optio allan gael caniatâd i optio nôl i mewn yn rhesymol. Fodd bynnag, ystyrir bod cyfyngu hyn i'r aelodau hynny a ddewisodd optio allan yn ystod y cyfnod rhwymedi (para 38) angen ystyriaeth bellach gan ei fod yn ymddangos yn rhy gyfyngol. Gallai dull gweithredu sy'n caniatáu disgresiwn i Reolwyr y Cynllun ystyried achosion o optio allan o ddyddiad cytunedig o wybodaeth fod yn fwy priodol (e.e. 1 Ebrill 2012 fel y nodir ym mharagraff 7(e). Byddai hyn, felly, yn dal yr aelodau cymwys hynny a ddewisodd optio allan o'r cynllun a gwneud darpariaeth amgen yn gynharach na diwrnod cyntaf y rhwymedi. |
| **Cyfraniadau** | | |
| **3** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ad-dalu gwargedion mewn cyfraniadau fel cyfandaliad unigol yn unig? | Cytunir bod hwn yn ddull rhesymol o weithredu ac yn un sy'n hylaw o safbwynt Rheolwr y Cynllun. |
| **4** | I ba raddau rydych chi'n chi'n cytuno â'n cynigion y dylid caniatáu i aelodau o gynlluniau â diffyg cyfraniadau ddewis i'w ad-dalu fel cyfandaliad neu (os bydd y diffyg yn £100 o leiaf) mewn rhandaliadau dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd? | Mae'r dull gweithredu yn rhesymol a gellir ei weinyddu gan Reolwr y Cynllun. Fodd bynnag, oni bai bod diffyg cyfraniad yr aelod o'r cynllun yn sylweddol, dylai fod yn ofynnol iddo ei ad-dalu'n gynt na 10 mlynedd. Byddai'n ddefnyddiol deall pa ddisgresiwn sydd gan Reolwyr Cynlluniau unigol i ddatblygu cynllun sy'n gwyro oddi wrth y 10 mlynedd lawn. Er enghraifft, a fyddai'n bosibl datblygu cynllun lle nad yw'r taliad misol yn disgyn yn is na'r hyn ar gyfer diffoddwr tân heb unrhyw ddiogelwch yn 1992? O wneud hynny, mae adennill symiau cymharol fach ar gyfer y rhai a gafodd fudd o ddiogelwch taprog yn digwydd yn amserol, gan leihau'r baich gweinyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai fod gan aelodau o gynlluniau y mae'r hawl ganddynt i gael ad-daliad o gyfraniadau cyfnod y rhwymedi yr hawl i'w hepgor, er mwyn osgoi gorfod ei ad-dalu adeg ymddeol? | Mae'r cynigion a nodir ym mharagraff 59 yn ymddangos yn rhesymol a gellir eu gweinyddu gan Reolwr y Cynllun (er bod angen cyfathrebu beichus ag aelodau). Mae'r egwyddor o ganiatáu 12 mis i'r rhai yr effeithir arnynt i gadarnhau eu dewis dangosol yn rhesymol eto. |
| **Mecanweithiau Dewis** | | |
| **6** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion bod yn rhaid cyflwyno dewisiadau uniongyrchol yn ysgrifenedig, ac na fydd modd eu dirymu? | Mae'r cynnig yn rhesymol gan gynnwys yr amserlenni y mae'n ofynnol i'r rhai yr effeithir arnynt wneud penderfyniad o'u mewn. Cefnogir y ddarpariaeth bod dewisiadau o'r fath yn ysgrifenedig ac na fydd modd eu dirymu. |
| **7** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion canlynol ar gyfer dewisiadau gohiriedig:<br><br>• bod yn rhaid eu cyflwyno'n ysgrifenedig;<br>• bod yn rhaid eu cyflwyno cyn pen blwyddyn cyn y daw'r buddion yn daladwy, a'r dyddiad y bydd yr aelod yn rhoi rhybudd o'i hawliad am fuddion pensiwn, pa ddyddiad bynnag yw'r hwyraf; ac<br>• y gall yr aelod eu dirymu a'u hail-wneud cyn dechrau'r broses o dalu? | Mae'r cynigion yn ymddangos yn deg er y byddai ystyriaeth bellach ac eglurder ar y goblygiadau ymarferol yn fuddiol. Nid yw'n glir beth yw'r sail resymegol ar gyfer cynnwys dyddiad blwyddyn cyn cymryd buddion, oherwydd yn ymarferol, dyddiad rhoi rhybudd o'i hawliad am fuddion pensiwn yw'r dyddiad y mae aelod yn rhoi rhybudd o ymddeoliad. Ar hyn o bryd rhagwelir y byddant wedi derbyn rhagolwg pensiwn er mwyn gallu gwneud y dewis yn ysgrifenedig, ond nid yw hyn yn wir bob amser.<br><br>Mae angen eglurhad pellach ar y cynnig i ganiatáu i aelodau newid eu dewis, yn ysgrifenedig yn ôl pob tebyg, hyd at y pwynt y daw'r buddion yn daladwy. Bydd cyfnod o amser wedi mynd heibio bob amser rhwng cwblhau'r ddogfennaeth ymddeoliad wedi'i llofnodi a'r taliad corfforol. Er y derbynnir y gall yr achlysuron pan fydd y penderfyniad yn cael ei ddirymu fod yn gyfyngedig, mae'r goblygiadau gweinyddol yn sylweddol ac mae angen gwrth-wneud prosesau (e.e. ymyrryd i ganslo taliad BACS).<br><br>Gall fod yn briodol ystyried y dyddiad y daw'r pensiwn yn daladwy fel y dyddiad y llofnodwyd y dogfennau terfynol. |

| | | |
|---|---|---|
| **8** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai aelodau dewis gohiriedig sy'n awyddus i ymddeol yn fuan ar ôl 1 Hydref 2023, ac y mae'r dyddiad terfyn ar gyfer gwneud dewis gohiriedig eisoes wedi mynd heibio ar y dyddiad hwnnw, allu ymddeol ar sail y dybiaeth bod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun etifeddol; ac y dylent allu gwneud dewis uniongyrchol eu hunain ar ôl ymddeol? | Mae'r cynnig hwn yn rhesymol. |
| **9** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai aelodau â chontractau lluosog â'r un cyflogwr wneud dewisiadau uniongyrchol neu ddewisiadau gohiriedig ar wahân mewn perthynas â phob contract? | O fewn cwestiwn 1 derbyniwyd y byddai pob contract lluosog o fewn y cwmpas, waeth beth fo dyddiad cychwyn y contractau hynny. Mae hyn i bob pwrpas yn ystyried y contractau yn eu cyfanrwydd yn hytrach na chontractau ar wahân ar y dyddiad cychwyn. Felly, byddai'n rhesymol eu trin yn yr un modd ar adeg gwneud penderfyniadau. Er y gallai pob contract fod yn destun dewis ar wahân gan yr aelod, mae'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r aelod wneud y dewisiadau ar wahân hynny ar yr un pryd. |
| **10** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid ystyried yn awtomatig bod aelodau neu eu goroeswyr nad ydynt yn gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig erbyn y terfyn amser penodedig wedi dewis gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun etifeddol? | Mae hwn yn gynnig angenrheidiol ac ymarferol ac mae'n caniatáu ar gyfer gweinyddu'r cynllun yn effeithiol. Tybir hefyd y bydd y dewis awtomatig hwn o wasanaeth cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun etifeddol hefyd yn ddewis na ellid ei ddirymu, h.y., ni all yr aelod ddewis yn wahanol ar ôl 12 mis. |
| **Ymddeol ar Sail Afiechyd** | | |
| **11** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid ailasesu aelodau â hawl a wnaeth ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi yn erbyn meini prawf eu cynllun etifeddol neu Gynllun 2015, pa un bynnag sy'n berthnasol, ac y dylid cynnig dewis uniongyrchol iddynt rhwng yr hawliau sy'n deillio o hynny; ond na ddylid rhoi hawl awtomatig iddynt gael eu hailgyflogi? | Mae'n deg ac yn briodol bod yr aelodau hynny sydd wedi'u hasesu ac a wnaeth ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi yn cael y cyfle i ystyried eu sefyllfa o dan y rheoliadau etifeddol a rheoliadau 2015.<br><br>Mae'r enghraifft yn 98(b) yn rhoi cipolwg ar gymhlethdod ymddeoliadau ar sail afiechyd o fewn y rheoliadau. Yn yr enghraifft hon roedd Diffoddwr Tân J yn aelod a ddiogelir yn llawn ac a dderbyniodd ymddeoliad ar sail afiechyd haen is. Fodd bynnag, pe bai'n cael ei asesu o dan reoliadau 2015 a chyda'r un amgylchiadau clinigol yn cyflwyno, gallai fod naill ai wedi parhau mewn cyflogaeth fel y dangosir ym mharagraff 102, neu wedi profi naill ai |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymddiswyddiad gwirfoddol neu ddiswyddiad ar sail gallu meddygol fel yr enghreifftir ym mharagraff 104.<br>Ymddengys mai peidio â rhoi hawl awtomatig i unigolyn gael ei ailgyflogi yw'r ffordd gywir o weithredu o ystyried cymhlethdodau cysylltiedig y rôl gan gynnwys cynnal ffitrwydd a chymhwysedd. Fodd bynnag, mae'r enghraifft hon hefyd yn amlygu y gallai fod angen ystyriaeth bellach fel yr amlinellir isod i sicrhau nad yw'r unigolyn yn parhau i fod dan anfantais oherwydd y gwahaniaethu gwreiddiol.<br><br>Pe bai Diffoddwr Tân J wedi bod yn ddarostyngedig i reoliadau 2015 ar yr adeg berthnasol, byddent wedi defnyddio'r holl dâl salwch cytundebol o fewn y ddwy flynedd o driniaeth ymosodol, ond yn dal i gael eu diogelu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Felly, yn ymarferol unwaith na fyddai ymddeol ar sail afiechyd salwch yn cael ei ganiatáu, byddai'n ofynnol i'r unigolyn wneud dewis:<br>• Aros yn gyflogedig ond heb dâl; neu<br>• Ymddiswyddo/diswyddo'n wirfoddol a'i gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â rôl nad yw'n ymwneud â diffodd tân. |
| **12** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig na ddylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ailarchwilio achosion lle na chaniatawyd i aelodau â hawl ymddeol ar sail afiechyd ac y gwnaethant barhau wedi'u cyflogi? | Mae hwn yn faes cymhleth ac ystyrir y gallai pob achos ddibynnu ar ei ffeithiau ei hun. Byddai'r cynnig yn ymddangos yn rhesymol pe bai Diffoddwr Tân J yn gallu ailafael yn ei ddyletswyddau diffodd tân arferol ar ôl dwy flynedd a ***pharhau*** yn y gyflogaeth honno ar adeg y rhwymedi. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n llai clir pe bai Diffoddwr Tân J wedi gallu aros mewn cyflogaeth yn ystod cyfnod y driniaeth ond yn canfod ei fod yn methu â chynnal hyn yn y tymor hwy ac yn ceisio ymddeoliad cyn yr oedran pensiwn arferol. Er enghraifft, pe bai Diffoddwr Tân J yn ailgydio yn ei ddyletswyddau gweithredol yn 2022 ond yn ymddeol yn 2024, bydd y pensiwn yn cael ei ostwng yn actiwaraidd a gallant ddadlau'n gyfreithlon eu bod wedi bod dan anfantais oherwydd y gwahaniaethu. |
| **13** | I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau wneud y canlynol:<br>• ailarchwilio achosion lle na chaniatawyd i aelodau yr effeithir arnynt lle mai Cynllun 1992 yw eu cynllun | Mae'r naratif ym mharagraff 104 yn rhoi enghraifft o gyflogai y mae ei gyflogaeth o bosibl yn dod i ben o ganlyniad i ymddeoliad ar sail afiechyd. Er bod yr enghraifft yn amlinellu y gallai hyn fod oherwydd ffitrwydd, ystyrir efallai bod enghraifft Diffoddwr Tân J ym mharagraff 98 (b) yn rhoi enghraifft fwy tebygol. Pe bai Diffoddwr Tân J naill ai'n |

| | | |
|---|---|---|
| | etifeddol ymddeol ar sail afiechyd ond y cawsant eu diswyddo ar sail gysylltiedig yn ymwneud â ffitrwydd a/neu bresenoldeb gwael? a;<br>• chynnig dewis uniongyrchol rhwng pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992 a phensiwn gohiriedig ar sail Cynllun 2015 i unrhyw aelod a fyddai wedi bod yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd o dan y Cynllun blaenorol? | cael ei ddiswyddo neu'n ymddiswyddo yn dilyn canlyniad yr asesiad ymddeoliad ar sail afiechyd, byddai'n briodol ailystyried hyn.<br>Fodd bynnag, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng yr achos hwn a'r rhai lle cafodd aelod ei ddiswyddo neu ymddiswyddo oherwydd absenoldeb nad oedd yn cael ei ystyried yn briodol ar gyfer atgyfeiriad ymddeoliad ar sail afiechyd ar y pryd. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n ymddangos yn rhesymol ailedrych ar ffeithiau'r achos i gael sicrwydd nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio i'r IQMP o dan y trefniadau etifeddol ond ni fyddai hawl awtomatig i atgyfeiriad IQMP yn cael ei ystyried yn fuddiol. |
| **Goroeswyr a buddion i oroeswyr** | | |
| **14** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig, pan fydd aelod o gynllun sydd â hawl yn marw heb wneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig:<br><br>• y dylai "unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau" fel y diffinnir ym mharagraff 111 uchod wneud y dewis hwnnw; ac<br>• y dylid defnyddio meini prawf Cynllun 2015 ym mhob achos i nodi'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau | Mae hwn yn faes anodd a sensitif ac mae'r cynigion a nodir yn y paragraffau perthnasol yn rhesymol ac ymarferol. Mae'r cynigion yn rhoi eglurder i Reolwr y Cynllun i fynd i'r afael â sefyllfaoedd a allai fod yn anodd a lle ceir gwrthdaro. |
| **15** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion canlynol:<br><br>• Os na fydd unrhyw gytundeb o ran pwy yw'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, neu os bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn methu â gwneud penderfyniad o fewn y terfyn amser, rhaid i reolwr y cynllun ystyried y gwnaed penderfyniad o blaid gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015; ac<br>• Os bydd aelod o gynllun yn gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig dilys cyn iddo farw, y caiff y dewis hwnnw ei anrhydeddu ac ni fydd gan unrhyw oroeswr yr hawl i'w ailystyried. | • Nodir bod y cynnig hwn yn fwyaf tebygol o roi'r buddiolwyr yn y sefyllfa orau ac felly dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio. A wneir darpariaeth o fewn y rheoliadau i ddisgresiwn gael ei gymhwyso lle mae'r dewis hwn yn amlwg yn niweidiol i'r buddiolwyr?<br><br>• Byddai'r cynnig i beidio ag ailymweld â dewis dilys gan aelod o'r cynllun yn ymddangos yn rhesymol. Byddai eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n annilysu'r dewis yn ddefnyddiol (er enghraifft, pe gallai'r buddiolwyr yr effeithir arnynt ddangos nad oedd gan yr aelod ddigon o alluedd meddyliol neu wybodaeth i wneud dewis gwybodus ar y pryd?) |

| | | |
|---|---|---|
| **16** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion, sef:<br><br>• Dylid adennill gordaliadau hanesyddol buddion goroeswr i oroeswyr sy'n unigolion cymwys sy'n gwneud penderfyniadau gan yr unigolion hynny, ond dylid diystyru gordaliadau i oroeswyr eraill; a<br>• Dim ond yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau fyddai'n gymwys i gael gwarged cyfraniadau, neu'n atebol i ad-dalu diffyg cyfraniadau, yn deillio o'i ddewis. | Mae'r cynnig i adennill gordaliadau gan unigolion cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn rhesymol ac mae'r trefniadau ar gyfer goroeswyr eraill yn briodol. Yn yr un modd, mae'r trefniadau ar gyfer cyfraniadau, gwarged neu ddiffyg, yn ymarferol. Dylid ystyried cyfnod ad-dalu gordaliadau hanesyddol er mwyn osgoi caledi gormodol. |
| **17** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion, sef:<br><br>• Dylid ailgyfrifo cyfandaliadau marwolaeth i aelodau a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi yn unol â dewis yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, a dylid adennill unrhyw ostyngiad mewn cyfandaliad a dalwyd i'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau ganddo; ond<br>• Dylid diystyru gwargedion mewn cyfandaliadau marwolaeth a dalwyd i unigolion ac eithrio'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, neu i ystad yr aelod sydd wedi marw.<br>• Lle bu farw aelod yr effeithir arno yn ystod cyfnod y rhwymedi ac na fydd gan neb hawl i bensiwn goroeswr, ond ei fod wedi enwebu unigolyn dilys i gael cyfandaliad marwolaeth o dan Gynllun 2015, dylai rheolwr y cynllun dalu'r swm hwnnw heb fod angen cynnig dewis i'r enwebai. | Mae gweinyddu trefniadau ar gyfer aelodau sydd wedi marw bob amser yn sensitif ac mae'r cynigion a nodir yn rhesymol. Gall fod yn briodol ystyried am ba gyfnod y dylid adennill gostyngiadau mewn cyfandaliadau er mwyn osgoi caledi gormodol. |
| **Pensiwn Ychwanegol** | | |
| **18** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion canlynol:<br><br>• Gall aelodau yr effeithir arnynt a brynodd bensiwn ychwanegol o dan Gynllun 2015 yn ystod cyfnod | Mae'r cynnig hwn yn ymarferol ac yn cael ei gefnogi. |

| | | |
|---|---|---|
| | y rhwymedi gael ad-daliad o gost hynny, ynghyd â llog; ond<br>• Ni all aelodau a fydd yn gwneud dewis uniongyrchol gael yr ad-daliad hwnnw os byddant yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid Cynllun 2015. | |
| **19** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion, sef:<br><br>• Byddai gan aelodau yr effeithir arnynt hawl ôl-weithredol i brynu buddion pensiwn ychwanegol yn eu cynlluniau etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi, ar yr un telerau ag a oedd yn gymwys i bryniant o'r fath a chan addasu cost gwneud hynny at ddibenion llog; a<br>• Rhaid gwneud unrhyw ddewis o'r fath o fewn blwyddyn i'r dyddiad y bydd yr aelod yn cael ei ddatganiad gwasanaeth rhwymediadwy cychwynnol. | Ni wneir unrhyw sylwadau ar y cynnig penodol, er y byddai eglurder ar y trefniadau ar gyfer gwneud iawn am y cyfraniadau yn ddefnyddiol (h.y. a yw'r rhagdybiaeth weithredol y bydd y diffyg yn cael ei wneud yn iawn dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd yn gywir). |
| **Ysgaru a diddymu** | | |
| **20** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion atafael pensiwn, sef:<br><br>• Pan fo gorchymyn atafael pensiwn yn weithredol eisoes ond nad yw'r pensiwn wedi dechrau cael ei dalu eto, ni ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu;<br>• Pan fo gorchymyn atafael pensiwn yn weithredol eisoes a bod y pensiwn eisoes yn cael ei dalu, gall y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod credyd pensiwn newid o ganlyniad i ddewis uniongyrchol yr aelod debyd pensiwn, ond caiff unrhyw swm gormodol o bensiwn o'r fath a dalwyd yn hanesyddol o ganlyniad i'r dewis ei ddiystyru;<br>• Ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn i'r aelod debyd pensiwn | Mae'r cynigion yn rhesymol ac yn rhoi eglurder. O ran ysgariadau/diddymiadau yn y dyfodol, mae'n briodol i'r llys dderbyn y CETV ar gyfer y cynllun etifeddol a chynllun 2015 i'w alluogi i wneud penderfyniad gwybodus. |

| | | |
|---|---|---|
| | wneud dewis gohiriedig, dylid cyfrifo'r gwerthoedd CETV ar gyfer gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 a'r cynllun etifeddol, a dylai'r llys ddefnyddio'r uchaf o'r ddau. | |
| **21** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn sydd eisoes yn weithredol ar 1 Hydref 2023, sef:<br><br>• Dylai datganiadau gwasanaeth rhwymediadwy ar gyfer aelodau debyd pensiwn â hawl gynnwys debydau pensiwn yn seiliedig ar osod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol ac yng Nghynllun 2015 (ac y gwneir dewisiadau uniongyrchol a gohiriedig yn unol â hynny);<br>• Dylai rheolwyr cynlluniau ailgyfrifo gwerthoedd CETV ar adeg ysgariadau neu ddiddymiadau yn seiliedig ar y cynllun nad oedd yr aelod debyd yn aelod ohono ar y pryd; ac<br>• Os bydd y CETV hwnnw yn uwch na'r un a ddefnyddiwyd gan y llys, yna dylai'r aelod credyd pensiwn gael credyd pensiwn am y gwahaniaeth rhyngddynt. | Mae'r cynigion yn rhesymol ac yn rhoi eglurder.  O ran ysgariadau/diddymiadau yn y dyfodol, mae'n briodol i'r llys dderbyn y CETV ar gyfer y cynllun etifeddol a chynllun 2015 i'w alluogi i wneud penderfyniad gwybodus. |
| **22** | A ydych o blaid cymhwyso credyd pensiwn o'r fath yn awtomatig at fuddion yr aelod credyd pensiwn ym mha gynllun bynnag y cafwyd y CETV uwch; neu a ddylid cynnig dewis i aelodau yn hynny o beth? | Ymddengys y byddai cymhwyso credydau pensiwn i'r cynllun gyda'r CETV uwch yn ateb ymarferol. |
| **23** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn a gaiff eu gwneud ar neu ar ôl 1 Hydref 2023, sef:<br><br>• Ar gyfer aelodau actif a gohiriedig, dylai'r CETV a roddir i'r llys fod yn seiliedig ar osod gwasanaeth yr | Mae'r cynigion hyn yn ymddangos yn deg ac yn rhesymol a chytunir ar gyfer ysgariadau/diddymiadau yn y dyfodol bod y llys yn cael CETV ar gyfer buddion cynllun 2015 a'r cynllun etifeddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol.<br>• Lle bydd aelodau o'r fath wedyn yn gwneud dewis gohiriedig i osod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015, caiff eu debyd pensiwn ei addasu'n unol â hynny (ond ni fydd buddion yr aelod credyd pensiwn yn newid);<br>• Ar gyfer aelodau sydd wedi ymddeol sy'n ysgaru neu'n diddymu partneriaeth ar ôl gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, mae'r CETV a roddir i'r llys yn adlewyrchu'r dewis hwnnw. | |
| **24** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trefniadau gwrthbwyso pensiwn, sef:<br><br>• Lle bo trefniadau gwrthbwyso eisoes ar waith pan ddaw ein rheoliadau i rym, ni chaiff unrhyw gamau gweithredu eu cymryd;<br>• Ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn i'r aelod debyd pensiwn wneud dewis gohiriedig, dylid cyfrifo'r gwerthoedd CETV ar gyfer gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 a'r cynllun etifeddol, a dylai'r llys ddefnyddio'r uchaf o'r ddau. | Mae'r cynigion hyn yn ymddangos yn deg ac yn rhesymol a chytunir ar gyfer ysgariadau/diddymiadau yn y dyfodol bod y llys yn cael CETV ar gyfer buddion cynllun 2015 a'r cynllun etifeddol. |
| **Trosglwyddiadau rhwng cynlluniau** | | |
| **25** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau clwb yn ystod cyfnod y rhwymedi, sef:<br><br>• Dylai rheolwr y cynllun ar gyfer y cynllun anfon gyfrifo'r gyfres amgen o fuddion i aelodau nad ydynt wedi'u diogelu yn seiliedig ar wasanaeth yn y cynllun etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi, a chyflwyno'r wybodaeth honno i reolwr y cynllun ar gyfer y cynllun | Yn fras, mae'r cynigion yn ymddangos yn rhesymol er nad yw'r rhesymeg dros beidio â mynnu taliadau rhwng cynlluniau heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei chefnogi'n llawn. Er y cydnabyddir bod taliadau o'r fath yn ddeugyfeiriol gall y gwerth fod yn sylweddol i uwch staff, yn enwedig lle y gall fod nifer o ddyrchafiadau wedi digwydd yn ystod cyfnod y rhwymedi ac nid yw'n hysbys a fydd y trosglwyddiadau'n mantoli. Byddai angen eglurder hefyd ar gyfrifoldebau rheolwr y cynllun ar gyfer y cynllun anfon i ddarparu |

| | | |
|---|---|---|
| | derbyn, a ddylai ei throsi i mewn i wasanaeth yn y cynllun etifeddol perthnasol;<br>• Dylai rheolwr y cynllun ar gyfer y cynllun anfon gyfrifo buddion y cynllun CARE amgen i aelodau a ddiogelir a chyflwyno'r wybodaeth honno i reolwr y cynllun derbyn fel y gellir creu swm amgen y buddion yn y cynllun derbyn; ond<br>• Ac eithrio ar gyfer trosglwyddiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu o'r cynllun hwnnw, nid oes angen diwygio'r taliad gwirioneddol gan y cynllun anfon i'r cynllun derbyn. | manylion cyfraniadau wedi'u hôl-ddyddio sy'n ddyledus gan yr aelod. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i aelodau sydd agosaf at ymddeoliad. |
| **26** | • I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau nad ydynt yn drosglwyddiadau clwb / CETV yn ystod cyfnod y rhwymedi a hyd at 30 Medi 2023, sef:<br><br>• Dylai rheolwr y cynllun anfon ailgyfrifo'r CETV yn seiliedig ar wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun ac eithrio'r cynllun yr oedd yr aelod wedi trosglwyddo ohono. Dylid didynnu unrhyw ddiffyg cyfraniadau, yn glir o dreth, ohono, a dylid ychwanegu unrhyw warged cyfraniadau, yn glir o dreth, ato.<br>• Os bydd y canlyniad yn uwch na'r CETV a ddefnyddiwyd ar yr adeg trosglwyddo, dylai rheolwr y cynllun wneud taliad trosglwyddo ategol ar gyfer y gwahaniaeth, ynghyd â llog, i reolwr y cynllun derbyn.<br>• Os na all y cynllun derbyn dderbyn taliad o'r fath, dylid talu'r aelod yn uniongyrchol yn lle hynny, ar ffurf iawndal. | Mae'r cynigion a nodir yn ymddangos yn rhesymol ac ymarferol. |
| **27** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau yn y dyfodol, sef: | Mae'r cynigion hyn yn ymddangos yn rhesymol ac ymarferol. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Dylai rheolwr y cynllun anfon gyfrifo dau werth trosglwyddo neu CETV, yn seiliedig ar osod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 ac yn ei gynllun etifeddol.<br>• O ran CETV i gynlluniau y tu allan i'r sector cyhoeddus, os na fydd yr aelod wedi gwneud iawn am unrhyw ddiffyg cyfraniadau neu wedi cael unrhyw warged cyfraniadau eto, dylid tynnu hwnnw o'r gwerth perthnasol neu ei ychwanegu ato.<br>• Wedyn dylid defnyddio'r gwerth uchaf o'r ddau at ddibenion y trosglwyddiad. | |
| **28** | I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion i ganiatáu i aelodau yr effeithir arnynt ailystyried a gwrthdroi penderfyniadau trosglwyddo a wnaed yn ystod cyfnod y rhwymedi, ar yr amod y gall y cynllun anfon a'r cynllun derbyn ganiatáu i drosglwyddiad gael ei wneud neu ei wrthdroi yn ôl-weithredol? | |
| **Effeithiau cydraddoldeb** | | |
| **29** | Mae diddordeb gennym ddeall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim? | Mae'n ymddangos bod y cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn ystyried y rhai â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Mae'r cynigion ymddeoliad ar sail afiechyd yn mynd i'r afael â'r buddion gwahaniaethol a'r meini prawf asesu rhwng y ddau gynllun ac yn darparu fframwaith ymarferol. Fodd bynnag, nodir y gallai'r aelodau hynny a barhaodd i weithio neu a ddiswyddwyd ystyried nad yw eu hanfanteision wedi'i asesu'n llawn. Cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl cyflawni hyn yn rhesymol o fewn fframwaith y rheoliadau ac efallai y bydd angen taliadau digolledu pellach.<br><br>Ystyrir y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol trwy ddefnyddio cyfnod ad-dalu sy'n ymestyn hyd at 10 mlynedd ar gyfer cyfraniadau sy'n ddyledus gan aelodau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'n ymddangos bod dileu arian sy'n ddyledus gan fuddiolwyr heblaw'r penderfynwr cymwys yn darparu diogelwch ariannol i'r rhai yr effeithir arnynt ac yn gyson ag egwyddorion y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, byddai'r cynigion ar gyfer adennill arian oddi wrth y rhai sy'n gymwys i wneud penderfyniadau yn elwa o ystyriaeth bellach i sicrhau bod caledi ariannol yn cael ei ystyried (e.e. pa ddisgresiwn fydd gan reolwr y cynllun i ddileu symiau o'r fath neu gasglu symiau sy'n ddyledus dros gyfnod y cytunwyd arno). |
| **30** | Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol? | Mae darpariaeth y rheoliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn sicrhau bod gan bawb yr effeithir arnynt ddewisiadau iaith priodol. |
| **31** | Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim sylwadau pellach yn hyn o beth. |
| **32** | A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar ein cynigion nad ydynt wedi'u cwmpasu gan gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn? | Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn gynhwysfawr iawn ac yn darparu fframwaith ymarferol ar gyfer darparu rhwymedi. |